

Tudalen 6

MERCHED Y WAWR



Tudalen 19

PLANT CHERNOBYL



Tudalen 5

PLANT BETHEL



# ECO'r Wyddfa

Rhif: 402
Medi 2012
Pris: 50c



## Cyrraedd Y Copa...




**Does dim angen trên bach na sgidia cerdded i gyrraedd Y Copa. Mae fel arfer yn bosibl parcio o fewn ychydig lathenni i'w ddrws ffrynt; ond gall hynny fod yn bur anodd bellach yn dilyn llwyddiant y bwyty mewn cystadleuaeth ddiweddar.**

Kitchen Wars oedd enw'r rhaglen goginio a ddarlledwyd ar Sianel 5, a'r cogydd enwog Marco Pierre White oedd yn gosod y tasgau ac yn beirniadu. Perchnogion Bwyty'r Copa/ Peak Restaurant, Llanberis, yw Angela Dwyer a Julia Roberts, ac y mae brwdfrydedd y ddwy yn amlwg i'w cwsmeriaid. Roeddent wedi gwneud argraff arbennig ar y beirniad hefyd.

Y gystadleuaeth gyntaf oedd coginio pryd un cwrs mewn hanner awr, ac yr oedd eu llwyddiant yn ddigon i'w hanfon i'r rownd gyn-derfynol: yr unig gynrychiolydd o Gymru. Rhaid oedd teithio i Wembley a stiwdio Cwmni Fountain ble mae rhaglenni fel "Who wants to be a millionaire?" yn cael eu cynhyrchu.

Y dasg yno oedd coginio a gweini pryd o fwyd tri chwrs i bump ar hugain o bobl. Awr a thri chwarter yn unig o amser a ganiatawyd iddynt i wneud hynny. Dywedodd Marco mai bwyd y ddwy o Lanberis oedd y gorau ar y noson, ond o ran cyfanwaith, doedd ddim yn ddigon iddynt fynd ymlaen i'r rownd derfynol. Boddi yn ymyl y lan felly – ond er y siom, roedd Angela a Julia yn hynod falch o'u llwyddiant, ac yn sicr, mae wedi rhoi'r bwyty ar y map.

Yn ogystal â chwsmeriaid lleol, mae eraill yn teithio yno o gryn bellter yn dilyn gwylio'r rhaglen ar y teledu. Braf medru adrodd fod traddodiad paratoi bwydydd o safon uchel yn parhau yn Llanberis. Am fwy o wybodaeth ewch i www.peakrestaurant.co.uk. Mae Bwyty'r Copa ar agor o nos Fercher i nos Sul o saith yr hwyr, ond mae'n bosibl archebu lle i bartion yno ar amseroedd eraill hefyd. Llongyfarchiadau a phob llwyddiant i'r dyfodol.

## Agor Ystafelloedd newid





Gêm Ryngwladol i agor ystafelloedd newid newydd Llanberis. Agorwyd yr ystafelloedd yn swyddogol gan yr Aelod Cynulliad; Alun Ffred Jones a T. John Roberts, a roes oes o wasanaeth i'r clwb. Yn y llun gwelir cyn-chwaraewyr y Darans a'r tim presennol. Beth am roi enw i bob un ohonynt er mwyn diogelu'r cofnod ar gof a chadw? A faint tybed o gefnogwyr presennol y clwb sy'n cofio'r rhain i gyd yn chwarae?

Tim Sporting Valletri o'r Eidal oedd gwrthwynebwyr Llanberis ar y diwrnod, a'r hogia lleol enillodd o chwe gôl i un, gan gipio Cwpan Sialens First Hydro.

## Enillwyr y Genedlaethol

Llongyfarchiadau'r ardal i enillwyr lleol. Cafwyd un gystadleuaeth arbennig o dda, gyda'r beirniad Menai Williams yn datgan mai hon oedd y gystadleuaeth Cerdd Dant orau erioed iddi wrando arni mewn unrhyw eisteddfod. A'r cyfnitherod o Benisa'rwaun, Lois, Anest, Enlli ac Alaw oedd yn fuddugol.

Daeth Math Roberts o Gwm y Glo yn gyntaf ar chwarae'r piano, a bandiau Llanrug a Deiniolen yn parhau i gynnal traddodiad cerddorol cyfoethog y fro.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Dylan Iorwerth, a fagwyd am gyfnod yn y Waunfawr, ac a gwblhaodd y "Gamp Lawn" (gweler teyrnged iddo gan Rol Williams ar dudalen 19)

Fel yn hanes Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon, wnaeth neb anfon lluniau o'r buddugwyr i'w cynnwys yn y rhifyn hwn.

# ECO'r Wyddfa

**RHIF 402**
**MEDI 2012**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau**
**ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD**
**Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)



gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673



## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

| Rhifyn | Copi i law | Plygu | Ble |
|---|---|---|---|
| Hydref | Medi 16 | Medi 27 | Penisarwaun |
| Tachwedd | Hydref 21 | Tachwedd 1 | Llanberis |
| Rhagfyr | Tachwedd 18 | Tachwedd 29 | Caeathro |
| Nadolig/Ionawr | Rhagfyr 9 | Rhagfyr 20 | Ysgol Brynrefail |

## LLYTHYRAU

*Annwyl Olygydd*
Yr wyf yn atodi'r llun hwn ar ran fy mrawd Griff Hughes, Llandegfan, gynt o Lanberis.
Llun a dynnwyd ganddo tua diwedd y 50egau, mae yn tybied, o'r hofrennydd gyntaf i lanio yn Llanberis a hynny ar safle Plas Pen Gwaith heddiw.

*Diolch a chofion,*
*Eluned Jones (Hughes gynt)*



*Rhaglen ddêtio newydd ar S4C*

*Annwyl bawb*
Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am gyfres ddêtio newydd sbon ar gyfer pobl sy'n dwlu ar eu hanifeiliaid anwes. Os ydych chi'n caru eich cymar pedair coes, ond yn dal i chwilio am eich cymar bywyd, dyma'r rhaglen i chi.
Fel fydd y rhaglen yn gofyn i'r cystadleuwyr fynd ar ddêt gyda thri anifail anwes; gall yr anifeiliaid fod yn unrhyw beth o gath i gwningen i grocodeil! Wedyn, bydd rhaid iddynt ddewis eu hoff anifail ac o ganlyniad i hyn, fynd ar ddêt gyda'r perchennog lwcus. Hoffem glywed oddi wrth bobl o bob oedran i gymryd rhan yn y rhaglen, felly gadewch i'ch anifail anwes eich arwain at y partner perffaith. Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda ar 01792 824567 neu drwy ebost sarah.reynolds@telesgop.co.uk

*Yn gywir*
*Sarah Reynolds*
*Cwmni Teledu Telesgop*

*Annwyl Olygydd*
Theatr Bara Caws ar daith gyda sioe glybiau newydd 'Un Bach Arall Eto..!' gan Twm Miall
Ysgrifennaf atoch i ofyn yn garedig a fyddai modd i chi gynnwys y wybodaeth isod am gynhyrchiad nesaf Bara Caws – 'Un Bach Arall Eto..!' gan Twm Miall yn rhifyn nesaf o'r Papur Bro (gan obeithio fy mod yn danfon mewn da bryd ar gyfer y rhifyn nesaf!).
Mi fydd y sioe glybiau yn cychwyn teithio Nos Fawrth 2ail o Hydref yng Nghlwb Chwaraeon Porthmadog ac yn diweddu yn y Chapter Caerdydd ar Nos Sadwrn, Tachwedd l0fed – 6 wythnos o daith i gyd.
'Mae Ron y tafarnwr mewn dyled dros ei ben a'i glustiau ac mae cwsmeriaid y 'Cwch a'r Captan' cyn briniad â rhaglen dda ar S4C. Mae'r hen greadur â'i din at wal a dydi Laves, ei wraig, fawr o help, pur anamal mae hi'n llnau a fedar hi ddim cwcio chwaith – cwcio ddudson ni!! Be' ddaw o'r hen le? Fedar y ddau godi'r hen byb yn ôl ar ei draed?
Noson ddifyr yng nghwmni llu o gymeriadau lliwgar wrth i un sioeau glybiau mwya' poblogaidd Bara Caws gael ei hatgyfodi o'r newydd.
Yr actorion yw: Bethan Dwyfor, Iwan Charles, Llŷr Evans a Hefin Wyn.
Mae Hefin a Bethan yn ymddangos am y tro cyntaf mewn sioe glwb!
Y cyfarwyddwr yw Dewi Rhys.
Diolch i chwi am eich cydweithrediad bob amser.

*Yn gywir iawn,*
*Linda Brown, ar ran Bara Caws*

## RHODDION

£10: Hugh Jones a'r teulu, Talmignedd Isaf, Nantlle; Mair James, 8 Bro Eglwys, Bethel; Mrs Jane Roberts, Glaslyn, Waunfawr; Teulu'r diweddar Gavin Carr, Llanberis; Er cof am y ddiweddar Beryl Jean Owen, gynt o 8 Maes Derlwyn, Llanberis.

£5: Carys Hamer, Bron Hafod, Ceunant, Llanrug; Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach, Bethel; Awel Fflur Ellis, Deiniolen; Mrs Alys Hughes, 3 Bryn Golau, Waunfawr.

Dymuna Hugh, Ann a Iolo, Arwel a Sioned, a theulu y ddiweddar Olive Jones, Talmignedd Isaf, Nantlle, ddiolch o galon am y llu cardiau, galwadau ffôn, geiriau o gysur a phob cymwynas a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Bu hyn oll o gymorth i ni fel teulu yn ystod cyfnod anodd.

Diolch i'r Parchedig Iwan Llewelyn Jones, Y Parchedig Harri Parri a'r Parchedig Ddr Huw John Hughes am eu gwasanaeth cofiadwy ac hefyd i Mrs Eirian Hughes yr organyddes.

Diolch i'r ffrindiau o bell ac agos fu'n driw i Olive yn ystod ei salwch. Bu hyn yn gysur mawr iddi.

Diolch arbennig i Staff Ward Alaw am eu gofal di-flino ohoni, hefyd i Nyrsys y Gymuned a Meddygfa Dolwenith, Penygroes. Gwerthfawrogir y rhoddion hael, sef y swm o £4,210 a dderbyniwyd er cof am Olive.

Hoffem ddiolch hefyd i Iolo, Roberts & Owen, am drefniadau hynod drylwyr ac urddasol.

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**

## GAIR GAN Y GOLYGYDD

Yn rhifyn Gorffennaf/Awst llongyfarchwyd holl blant a ieuenctid y fro ar eu llwyddiannau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ond mynegwyd siom nac anfonwyd lluniau o'r buddugwyr i'w cynnwys yn y papur. Y mis hwn, yr un yw'r hanes yn achos buddugwyr yr Eisteddfod Genedlaethol.

Eto'i gyd, y mis hwn anfonwyd llu o luniau o Eisteddfod yr Urdd! Maent bron i dri mis yn rhy hwyr!

Felly, peidiwch ac anfon lluniau o'r Eisteddfod Genedlaethol erbyn y mis nesaf: fe fydd y rheini erbyn hynny, ddeufis yn rhy hwyr.

Derbyniwyd hefyd luniau a straeon am wahanol ddigwyddiadau ac unigolion sydd eisoes wedi ymddangos yn yr "Eco".

Mae'n amlwg fod haf gwlyb yn effeithio'n bur ddifrifol ar rai!

# Taith Gerdded Hanes Bro

Fuasech chi'n hoffi ymuno ar daith gerdded hawdd er lles eich iechyd a darganfod ychydig o hanesion difyr a hwyliog y fro yr un pryd? Yna bydd cyfle i chi ymuno a mwynhau diwrnod arbennig yng nghwmni Gareth Roberts (awdur mapiau hanes Llanrug a Llanddeiniolen) a Menter Fachwen yn Caffi Cwm y Glo ar ddydd Iau, 20 Medi.

Mae'r achlysur yn cael ei gyd-drefnu gyda Caroline Moncrieff o ymgyrch 'Dewch i Gerdded Gwynedd' a'r 'Cynllun Cerdded a Darganfod' sef prosiect newydd Gareth a Menter Fachwen (a bydd lawer mwy am y prosiect newydd ac arloesol hwn – bydd yn mapio llawer mwy o'r fro – yn yr Eco yn y misoedd i ddod.)

Bydd y diwrnod yn cychwyn am 10 y bore yn y caffi yng Nghwm y Glo lle bydd Gareth yn cyflwyno 'sioe sleidiau' o hanes byr y fro – o'r llosgfynyddoedd i'r Ail Ryfel Byd. Yna mae cyfle i fynd am daith gerdded hawdd oddeutu 90 munud gyda Gareth i ddarganfod a gweld yr hanes hwnnw am 10.30. I'r sawl sydd â diddordeb yn y daith, dewch i gofrestru am 10 o'r gloch.

Nôl yn Caffi Cwm y Glo bydd Menter Fachwen yn cael barbaciw o hanner dydd ymlaen a thrwy'r prynhawn. Bydd cost os ydych eisiau ymuno â'r barbaciw ond mae popeth arall am ddim.

Yn y prynhawn hefyd mae cyfle i chi ddod â'ch hen luniau a hanesion o fro Eco'r Wyddfa i'w dangos, sgwrsio, a'u copio yng nghwmni Gareth ac Ann o Menter. Hefyd bydd Gareth wedi paratoi arddangosfa o hen luniau a hanesion y fro i chi fwynhau a thrafod. Croeso i bawb.

Os oes angen mwy o wybodaeth yna cysylltwch â Gareth ar 07867 810576 neu drwy ebost: garmel@fsmail.net.

# Malcolm yn codi arian eto eleni




*Malcolm yn cyflwyno siec o £1000 i Professor Stuart a staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.*

Roedd yn bleser gallu cyflwyno siec o £1,000 yr un i ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ac i Adran Niwro-lawdriniaeth Walton ar ran teulu, ffrindiau a'r gymuned. Rhaid rhoi clod i'r holl bobol wnaeth gymeryd ffurflenni noddi ac i'r cannoedd o bobol sydd wedi bod yn ddigon ffeind i roi arian i'r ddau achos arbennig yma. Rydym mor falch o'r ymateb a gafwyd eto eleni ac o'r gefnogaeth barhaol a charedigrwydd pawb, mae'n gwneud y cyfan yn werth chweil. Mae'n amser emosiynol iawn i ni fel teulu oherwydd i ni golli Yvonne, gwraig a mam arbennig a gwerthfawr, ar Fehefin 22, 2006 pan oedd dim ond yn 47 mlwydd oed wedi brwydr dewr yn erbyn canser. Mae'n 6 blynedd eleni ers i ni golli Yvonne.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb am fod mor hael mewn cyfnod economaidd anodd. Cyflwynwyd siec am £1,000 i Ward Alaw ar Fehefin 21 a chyflwynwyd siec i Ganolfan Walton ar Fehefin 28, hefyd am £1,000. Roedd y ddau achos yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad. Mae'n anrhydedd gallu gwneud y gwaith elusennol yma o godi arian bob blwyddyn ac os y gallaf, rwy'n bwriadu gwneud yr un peth i'r ddau achos yma eto y flwyddyn nesa.

Fe wnaeth Canolfan Walton achub fy mywyd wedi i mi gael damwain car ddifrifol yn Ynys Môn ar Awst 10 1982, roeddwn yn 25 mlwydd oed ac yn briod i Yvonne ers dim ond 9 mis. Roeddwn mewn coma ac ar beiriant cynnal bywyd am dair wythnos. Arbenigedd ac ymroddiad y staff meddygol yn Walton a fy natur penderfynol a fy nghariad at Yvonne wnaeth helpu i mi wella. Cefais ffisiotherapi dwys oherwydd nad oeddwn yn gallu cerdded na siarad a bu help a chefnogaeth Yvonne yn amhrisiadwy i mi. Pan gafodd Yvonne y diagnosis o ganser y fron a hithau yn ddim ond 36 mlwydd oed, bu'n rhaid i mi wedyn ei helpu hi i ymdopi hefo'r salwch erchyll. Ar Awst 10 eleni mi fydd yn 30 o flynyddoedd ers i mi gael y ddamwain car sydd yn gwneud y ffaith bod cymaint o bobol wedi fy noddi eleni i seiclo 71 milltir a hanner o Gaer i Fangor ac i nofio 9 milltir a hanner ym mhwll Plas Menai hyd yn oed yn fwy pwysig ac arbennig. Diolch o galon i bawb.


NOSON YNG NGHWMNI
MEI JONES
(Wali Thomas)
Gyda'r
GLASLANCIAU
A Lleisiau Lliwedd
Yng Nghlwb Cymdeithasol
Social Club Llanberis
NOS WENER MEDI 21
Drysau yn agor am 7 o'r gloch
Pris Mynediad-£6.
Elw At Ymchwil Y Cancer A Chymdeithas Alzheimer's
TOCYNNAU AR GAEL GAN- Aelodau'r Côr-
Y Pantri • Llygaid yr Haul Neu ar y Drws
Adloniant i Oedolion yn unig

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

# BETHEL Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

## YSGOL GYNRADD BETHEL













Stondinau Siarad. Mae nifer fawr o blant yn yr adran iau yn cael pleser mawr o gyflwyno stondinau siarad yn dymhorol. Mae'r plant yn dewis pwnc sydd o ddiddordeb iddynt ac yn rhoi cyflwyniad a sgwrs i weddill y dosbarth yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Mae'n ffordd arbennig o ddatblygu sgiliau llafaredd yn y ddwy iaith ac yn rhoi hwb i hyder nifer o'r disgyblion. Dyma lun o Liam (Blwyddyn 6) efo Bili y Geco. Cyflwynodd Liam stondin siarad am ei anifail anwes ac fe gafodd y plant i gyd fodd i fyw yn cyfarfod Bili yn y dosbarth!

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr iawn i Owain Llestyn Thomas ar ddod yn gyntaf yn yr unawd offeryn pres yn yr Eisteddfod yng Nglynllifon. Bu Mrs Guillemin a Mrs Manon Thomas, (mam Erwan), yn hyfforddi'r Côr Adran ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Er na ddaeth y côr i'r brig, roedd y plant i'w canmol am gyrraedd safon uchel. Diolch iddynt am fod yn ffyddlon i'r ymarferion ar ôl ysgol ac am wneud eu gorau glas fel arfer. Llongyfarchiadau i Owain Llestyn Thomas a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth Offeryn Chwyth. Mae hi bob tro yn bleser gwrando ar Owain yn canu'r piano ac yn chwarae'r corn. Mae ganddo dalent arbennig. Llongyfarchiadau i Angylion Bach Kelly ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod hefyd. Mae nifer o blant yr ysgol yn y grŵp dawnsio. Da iawn chi, genod!! Cafodd rhai o ddisgyblion B5&6 fudd mawr hefyd o berfformio yn Sioe Gerdd ysgolion Cynradd Eryri.

Clybiau ar ôl Ysgol. Mae'r plant wedi cael mwynhad mawr o gymryd rhan yn y clybiau ar ôl ysgol. Bu'r plant yn brysur iawn yn y clybiau coginio, garddio, celf a'r clwb chwaraeon. Diolch i staff yr ysgol am gymryd gofal o'r clybiau.

Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd. Mae ein swyddogion diogelwch y ffyrdd - Gwenllian Griffiths a Gethin Jones - wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar y gosod cystadleuaeth i'r plant yn yr ysgol. Roedd rhaid i'r plant fynd ar daith oddi amgylch y pentref yn sylwi faint o arwyddion ffyrdd gwahanol oedd i'w gweld. Roedd gwobrau arbennig i'w cael. Ben Evans gafodd y wobr gyntaf yn yr adran iau ac Elen Llestyn gafodd yr ail wobr. Bryn Hughes gafodd y wobr gynaf yn adran y babanod a Millie May gafodd yr ail wobr. Da iawn chi blant am fynd i gymaint o drafferth a da iawn Gwenllian a Gethin am drefnu'r gystadleuaeth.

Taith Blwyddyn 5 a 6 i Gaerdydd. Cafodd dosbarth Elidir dridiau arbennig iawn yng Nghaerdydd. Bu'r dosbarth yn ymweld â'r Pwll Mawr, Sain Ffagan, Y pwll nofio Olympaidd, Techniquest, Stadiwm y Mileniwm a thaith i'r sinema!! Fe gafodd pob un amser gwerth chweil a phob un yn glod mawr i'r ysgol ac i'w rhieni. Roedd yn bleser bod yn eu cwmni. Diolch i Mrs Guillemin, Mr Parry, Anti Joyce a Miss Evans am fynd efo'r plant i'r brif ddinas ac i Anti Sasha am drefnu'r daith.

Tenis – Wrecsam. Llongyfarchiadau i'r sgwad tenis am wneud yn wych yn y gystadleuaeth Gogledd Cymru yn Wrecsam yn ddiweddar. Llwyddodd tîm genethod blwyddyn 3 i ddod yn ail ac fe gafodd bechgyn blwyddyn 4 a 5 drydydd. Da iawn bob un ohonoch am gynrychioli'r ysgol mor dda!

Mabolgampau'r Ysgol. Cynhaliwyd y mabolgampau ar ddydd Mawrth, Mehefin 26ain. Cadnant lwyddodd i ennill y darian eleni! Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw. Braf iawn oedd gweld Cai Moss ac Erin Roberts o flwyddyn 2 yn ennill y tlysau pencampwyr mabolgampau y Babanod a llongyfarchiadau i Nathan Hughes a Ffion Jones am ddod yn bencampwyr yr Adran Iau.

Disgyblion yn meddwl. Cynhaliodd yr Adran Iau wythnos TASC, (Thinking Actively in a Social Context) yn ystod y tymor a chynhaliwyd gweithgaredd Mentergarwch ym mhob dosbarth, sydd yn annog y disgyblion i feddwl yn entrepreneuraidd. Gwylia dy hun Alan Sugar! Ar ddiwrnod y mabolgampau roedd pob dosbarth wedi paratoi cynnyrch i'w gwerthu fel rhan o weithgareddau mentergarwch yr ysgol. Roedd dosbarth Lliwedd yn gwerthu diod oren ac roedd dosbarth Seion yn brysur yn gwerthu "tip tops". Bu dosbarth Glyder yn hynod o ddiwyd yn cynllunio a gwneud bathodynnau a breichledau tra roedd dosbarth Gwyrfai yn gwerthu smwddis!! Salad ffrwythau oedd gan dosbarth Elidir i'w gynnig i'r cwsmeriaid. Roedd pawb wedi cynllunio'n fanwl faint oedd y cynnyrch yn eu costio i'w gwneud ac wedi meddwl yn galed am brisiau y cynnyrch er mwyn sicrhau elw! Byddai Alan Sugar yn falch iawn o feddwl entrepreneuraidd plant Ysgol Bethel.

Gwefan Ysgol wedi ei lansio! Mae'r wefan ysgol bellach wedi ei chyhoeddi ac yn fyw. Cafwyd Noson Lansio i deuluoedd ar Orffennaf 9fed dan ofal Ffrindiau Ysgol Bethel. Ewch ar y wefan am holl newyddion a lluniau diweddaraf yr ysgol ar www.ysgolbethel.org

Gwobr Treftadaeth Cymru. Bu dosbarth Elidir yn llwyddiannus yn eu cais am Wobr Treftadaeth Cymru, gan ennill £100 am eu cyflwyniad ffilm ar Amgueddfa Lechi Llanberis. Diolch i'r plant am eu proffesiynoldeb ac i Mr Parry am ymgymryd â'r gwaith. Cewch weld gwaith y plant ar wefan yr Amgueddfa Lechi.

Ysgol Werdd. Mae'r ysgol wedi cyflwyno portffolio ar gyfer achrediad tuag at Medal Aur Ysgolion Gwyrdd. Diolch i Miss Wendy Hebenstreit am ei goladu. Fel rhan o'n cyswllt ag Antur Waunfawr, mae bin ail-gylchu dillad wedi ei osod wrth fynediad yr ysgol, felly dewch â'ch hen ddillad i'w hailgylchu ac fe fydd yr ysgol yn elwa hefyd! Mae gardd yr ysgol yn ffynnu – diolch i dail ffrwythlon Y Fachell! Diolch i Aled Jones, (tad Elan, Bedwyr ac Elis) am baratoi'r tir i ni. Erbyn hyn mae gennym datws, nionod, pys, mafon a chyrens duon yn tyfu. Rydym yn ddiolchgar dros ben i Steve Williams, (tad Sam a Millie) am godi'r ffens i ni yn rhad ac am ddim ac am paratoi mwy o wlâu i'n galluogi i ddatblygu'r ardd ymhellach y flwyddyn nesaf. Cafodd y tatws eu codi ar ddiwedd y tymor ac fe gafodd y plant gyfle i'w blasu ar ôl i Anti Carys a staff y gegin eu coginio!

Ymwybyddiaeth Iaith. Mae'r Cynllun Rwtsi-pwts wedi ei roi ar waith















yn yr ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar godi safonau iaith lafar y disgyblion trwy ddileu geiriau Saesneg a bratiaith ac mae'n seiliedig ar gywiro ein gilydd. Hyd yma, mae'r cynllun yn gweithio yn dda a'r disgyblion a'r staff yn llawer mwy ymwybodol o ansawdd yr iaith a ddefnyddiant.

Pwll dŵr. Bu B4 wrthi'n brysur iawn yn gweithio ar eu prosiect Pwll Dŵr. Maent wedi cynllunio'r ardal ar gyfer y pwll a phenderfynu ar blanhigion i'w plannu er mwyn denu bywyd gwyllt. Hwy sydd hefyd wedi cynllunio'r gwariant ac wedi cyllido'r prosiect trwy eu gweithgareddau codi arian ac maent i'w llongyfarch am godi £325. Da iawn chi blant! Diolch i Mr Gwyn Elwyn am baratoi'r pwll a gosod y ffens sydd o'i amgylch ac i Mrs Elwyn am arwain y fenter. Mae'r ysgol wedi dilyn y canllawiau diogelwch priodol ar gyfer pyllau dŵr mewn ysgolion.

Kerb-Kraft. Cafodd B2 gyfres o wersi Diogelwch y Ffordd, Kerb-Kraft. Diolch i'r mamau a fu'n cynorthwyo, sef Mrs Pauline Todd, (mam Joe) a Mrs Jennifer Williams, (mam Millie a Sam) am gynorthwyo gyda'r gwersi yn ffyddlon.

Trefi Taclus. Bu cynrychiolydd o Trefi Taclus yn trafod y broblem o faw ci gyda'r disgyblion. Gosodwyd cystadleuaeth i greu poster i atal hyn. Beirniadwyd y gystadleuaeth gan Y Cyng. Siôn Jones a'r enillwyr oedd: Bl D/1/2 1af - Cadi Lloyd-Shipton; Bl 3/4 1af – Sion Lewis Jones; Bl 5/6 1af - Sara Dylan Williams. Bydd y goreuon yn cael eu hargraffu a'u harddangos o amgylch y pentref.

Ymweliad â'r Capel. Bu B3 yn ymweld â Chapel Cysegr, lle cawsant sgwrs gan Y Parchedig Marcus Robinson. Cafwyd bedydd a phriodas yn ystod yr ymweliad! Diolch i'r Parchedig Marcus am fod mor barod i gyfrannu.

Y Dosbarth Meithrin. Roedd cryn gynnwrf yn y ffreutur pan arhosodd y dosbarth Meithrin i ginio! Bwytaodd pob un lond ei fol o ginio blasus Anti Carys! Bu'r Cylch Meithrin hefyd yn treulio'r prynhawn yn yr ysgol er mwyn cael blas ar yr hyn sydd o'u blaenau ym mis Medi a braf oedd gweld amryw ohonynt yn awyddus i gael dod yn ôl y diwrnod wedyn!

Gwasanaeth a Sioe! Cynhaliwyd gwasanaeth diwedd blwyddyn i rieni yn ôl yr arfer yng Nghapel Cysegr. Teg yw dweud fod y dosbarth Meithrin wedi ennill y wobr am y perfformiad mwyaf brwdfrydig a hyderus! Unwaith eto, roedd Sioe Ffarwel Blwyddyn 6 yn gymysg o chwerthin a dagrau. Yn unol â dymuniad y disgyblion, bu newid i'r drefn wobrwyo cyrhaeddiad ac yn hytrach, fe roddwyd gwobr i bob disgybl am rinwedd sydd yn arbennig iddo fo/hi. Cyflwynwyd gwobr ychwanegol, er cof am y Prifardd Selwyn Griffith, i'r disgybl sydd yn gloywi mewn Cymraeg a'r enillydd eleni oedd Elan Jones. Hoffai bob un ohonom ddymuno'r gorau i'r 12 disgybl fydd yn trosglwyddo i Ysgol Brynrefail ar ôl yr haf. Mae wedi bod yn bleser cael pob un ohonynt yn Ysgol Bethel a bydd chwith garw ar eu holau.

Chwaraeon. Er gwaethaf y cawodydd, llwyddwyd i gynnal Mabolgampau eto eleni. Llongyfarchiadau i'r disgyblion am eu hymdrech a'u llwyddiant ac i'r disgyblion canlynol am eu llwyddiant arbennig yn ennill tlysau'r Victor Ludorum: Bechgyn yr Adran Iau: Nathan Hughes; Genethod yr Adran Iau: Ffion Jones; Bechgyn y Babanod: Cai Moss; Genethod y Babanod: Erin Roberts. Mae Clwb Chwaraeon Bethel bellach ar ei draed, gyda sesiynau blasu wedi eu chynnal gan swyddogion PESS a gwirfoddolwyr o blith y rhieni a'r gymuned. Siomedig fu'r ymateb a bydd yr ysgol yn cysylltu gyda rhieni ym Medi er mwyn canfod os bydd mwy o blant yn dymuno mynychu.

Staffio. Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs Brenda Jones, Cymhorthydd AAA. Diolch i Mrs Jones am ei chyfraniad i'r ysgol dros y blynyddoedd. Bydd Miss Mared Roberts, Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen, a Miss Greta Jams, cymhorthydd AAA, yn ein gadael ddiwedd y tymor hwn i ddilyn cwrs hyfforddi athrawon, TAR. Dymunwn pob llwyddiant iddynt yn eu gyrfa dewisol. Penodwyd Mrs Joyce Gaffey, sydd ar hyn o bryd yn gymhorthydd 1:1 yn yr ysgol, i swydd Miss Mared.

Ffrindiau Ysgol Bethel. Cynhaliwyd Ffair Haf, Miri Mai llwyddiannus a chodwyd elw anrhydeddus o £1,149.49 a threuliwyd dydd Sadwrn yn pacio bagiau ym Morrisons, gan wneud elw o £404.44. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r gymdeithas am ariannu'r wefan newydd. Mae'r gymdeithas hefyd wedi ariannu'r canlynol i'r ysgol yn ystod y tymor: - Meinciau i'r buarth; byrddau picnic; taflunydd a chliniadur i'r neuadd. Hoffwn ddiolch i aelodau'r gymdeithas am eu gwaith caled ac i'r rhieni am gefnogi'r gweithgareddau a drefnir.

Cais. Gofynnwn yn garedig i rieni beidio parcio ym maes parcio'r ysgol wrth ollwng eu plant yn y Clwb Brecwast gan fod hyn yn achosi trafferthion i staff sydd yn cyrraedd eu gwaith. Yn hytrach, a wnaiff bawb ddefnyddio'r man gollwng dros y ffordd i'r ysgol os gwelwch yn dda. Hoffwn eich atgoffa eto i beidio parcio yn yr arosfeydd bysiau nac o flaen tai cymdogion. Diolch am eich cydweithrediad yn hyn.








## *Parhad* BETHEL...*eto!*

**CLWB BRO BETHEL.** Cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r Clwb brynhawn Mawrth, Medi'r 4ydd am 2.00. Gari Wyn (Ceir Cymru) fydd yn sgwrsio gyda'r aelodau a bydd paned i gael ar y diwedd. Croeso mawr i unrhyw un i ymuno â'r Clwb a chael cyfle i gymdeithasu ymysg cyfeillion unwaith y mis.

**MERCHED Y WAWR.** Bydd noson agoriadol y Gangen nos Fercher, 12 Medi, yn Festri Cysegr. Gofynnir yn garedig i bawb ymgynnull am 7.00 er mwyn cael cyfle i ymaelodi ac yn y blaen. Edrychwn ymlaen i groesawu Meinir Llwyd a rhai o ddisgyblion Canolfan Gerdd William Mathias i'n diddanu, a bydd lluniaeth ysgafn ar gael i bawb ar y diwedd. Fel Cangen 'rydym yn estyn croeso i gyn-aelodau ac i unrhyw un sydd yn dymuno ymaelodi o'r newydd, i fanteisio ar y cyfle i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae rhaglen amrywiol wedi ei pharatoi gan y Pwyllgor, felly edrychwn ymlaen am flwyddyn arall o weithgareddau yn hanes y Gangen.

**PWYLLGOR EISTEDDFOD BETHEL.**

Noson Goffi. Nos Wener Medi 14eg 2012 Capel Cysegr 6.00pm.

Mynediad £1, plant am ddim.

Ar y noson, bydd rhaglen a thestunau'r Eisteddfod ar gael a chyfle i blant cynradd ac uwchradd roi eu henwau ymlaen os am gystadlu mewn partion llefaru, canu a cherdd dant yn yr Eisteddfod eleni. Bydd stondinau cacen, tombola a raffl yno ac mi fyddwn yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad tuag at y noson. Os oes gan rywun ddiddordeb mewn hyfforddi parti, plîs rhowch wybod ar y noson neu ffonio Lowri 670 329.

Cyfarfod i aelodau'r Pwyllgor i gadarnhau trefniadau'r noson, Nos Lun 11.9.2012 am 7:00pm, Capel Cysegr.

**CYLCH MEITHRIN.** Hoffai Cylch Meithrin Bethel ddiolch o galon i bawb am gefnogi ein hymdrechion i godi arian yn ddiweddar. Cynhaliwyd Ocsiwn Addewidion ar nos Wener, 29ain o Fehefin, yn Y Bedol. Cafwyd adloniant gwych gan Catrin Hopkins, Donna Hanks, Y Bandana a Howard Hughes.

Bu i lawer o bobl fynychu'r noson ac, o dan arweiniad ein arwerthwr Emyr Gibson, llwyddwyd i godi cyfanswm o £5,089 tuag at Gylch Meithrin Bethel.

Rydym yn eithriadol o ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom gan y gymuned leol. Bydd yr arian yma yn sicrhau parhad y Cylch am y dyfodol agos ac yn ein gallu i greu gardd a man chwarae diogel i'r plant.

**DIOLCH.** Dymuna Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am yr anrhegion, y cardiau ac arian at Ambiwlans Awyr Cymru a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig. Diolch i bawb.




**MERCHED Y WAWR,** Rhanbarth Arfon, Is-bwyllgor er budd yr Anabl.

Ers 30 o flynyddoedd bellach mae aelodau o Ferched y Wawr Rhanbarth Arfon wedi bod yn casglu arian at achosion da. Mae symiau anrhydeddus wedi cael eu cyflwyno i nifer fawr o sefydliadau elusennol dros y blynyddoedd a braf yw cael dweud fod cyfanswm y casgliadau ers y dechrau wedi cyrraedd £49,614.

Gwelir yn y llun Trysorydd Pwyllgor yr Anabl, Glenys Griffiths, yn cyflwyno siec am £2,830.00 i Margaret Haines, Trysorydd Urdd Cyfeillion Ysbyty Eryri, yn dilyn dau weithgaredd eleni.

## CAEATHRO

**Newyddion y Capel.** Bydd yr oedfaon canlynol yn cael eu cynnal yn ystod mis Medi:
Dydd Sul, 4 Medi, am 2:00 o dan arweiniad ein Gweinidog, y Parch, Marcus Robinson [Cyfarfod gyda'r Swyddogion i'w cynnal ar ôl yr Oedfa.]
Dydd Sul, 18 Medi, am 2:00 o dan ofal y Parch. W.R. Williams.
Mae holl wasanaethau yng Nghapel Cymunedol y Pentref yn agored i bawb - o unrhyw enwad Cristnogol, Cristion annibynnol, pobl o ffydd arall ac unigolion sydd awyddus i wybod mwy am Iesu Grist.

**Tynfa Fisol.** Enillwyr Tynfa Fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Gorffennaf oedd:-
£40, rhif 51, Dafydd Roberts, 5 Brynteg; £25, rhif 36, Wyn Jones, 12 Erw Wen; £15, rhif 78, Nan Huws, 10 Erw Wen; £5, rhif 91, P Jones, Rhyddallt Bach.
Ail-lansiad. Bwriedir ail-feddwl am y dull gorau o gyflwyno gwaith Cristnogol i blant yng Nghaeathro o fis Medi 2012 ymlaen. Bydd rhaid meddwl yn nhermau cyd-enwadol ac anenwadol, sef gweithgaredd sy'n agored i bob plentyn fel unigolyn. Felly bydd cyfarfod yng Nghanolfan y Capel fore Sul, 9 Medi am 11:00 - ar gyfer oedolion a'u plant [o Flwyddyn 0 ac yn hŷn]. Bydd Andrew Settatree o Gynllun EfE yn bresennol gyda syniadau posibl ar gyfer y ffordd ymlaen.

**Pen-blwydd Mawr.** Llongyfarchiadau mawr i Hugh Jones, 23 Tai Glangwna, wedi iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ganol mis Gorffennaf. Roedd yn braf gweld y dreif yn llawn dop o geir y teulu!

**Llongyfarchiadau.** Ym mis Gorffennaf derbyniodd Hannah Hughes, Llyngele, Gradd Dosbarth 2.2 o Brifysgol Bangor mewn Trosedd a Chyfiawnder Troseddol. Bydd hi wedi cychwyn gweithio fel un o raddedigion o dan hyfforddiant sydd gan Gyngor Gwynedd.
Pen-blwyddi o bwys. Llongyfarchiadau i Marian Hughes, Tŷ Mawr, ar ôl iddi ddathlu pen-blwydd yn 70 oed ym mis Gorffennaf. Hefyd i Mark Jones, Tŷ Newydd, sydd ddeng mlynedd ar hugain yn iau!

**Eisteddfod yr Urdd.** Cyfanswm yr ymdrechion codi arian trwy'r Pwyllgor Apêl Lleol ar gyfer Caeathro a'r cylch oedd £2,638, sef swm mwy na'r targed o £2,000. Llongyfarchiadau i bawb. [gellir gweld adroddiad swyddogol y pwyllgorau apêl lleol ar hysbysfwrdd y Pentref.]

**Ffarwel.** Mae Peter ac Olga Evison wedi gadael Cae Hopcyn, Rhos-bach, ar gyfer cartref newydd ym Miwmares. Yn ystod eu harhosiad hir yn y fro maent wedi cyfrannu llawer i'r gymuned a'r gymdeithas. Pob hwyl iddynt ar ochr arall yr Afon.

**Cymorth Cristnogol.** Er mwyn codi arian i gynorthwyo pobl llawer llai ffortunus na ni – dirwasgiad neu beidio, bydd noson codi arian am 7:00 y.h, nos Wener, 21ain o fis Medi, yng Nghanolfan y Capel. Bydd stondinau a gemau i blant (o bob oed), paned a sgwrs.

**Cymydog Da.** Diolch mawr i Gwenllïan Daniel, Y Bwthyn, am docio'r tyfiant a oedd yn creu anhawster i'r sawl a oedd wedi mentro ar hyd y pafin cul. Edrychwn ymlaen at bafin go iawn cyn bo hir!

**Miri Medi.** Bydd gemau, adloniant a lluniaeth i bawb o bob oed yn y Miri Medi ar y Cae Chwarae (cae'r swings!) ddydd Sadwrn, 8 Medi. Cyfle i gefnogi syniadau newydd y trefnwyr.

CHIROPODYDD
GALWADAU I'R CARTREF
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
Cysylltwch- Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)
Cewch groeso cynnes gan CLED A SUSAN
Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)




**PRIODAS.** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Nigel Starkey, Ty'n Gerddi Uchaf ac Alice Barbour-Hill o Fangor ar achlysur priodas ar 21 Gorffennaf.

**LLONGYFARCHIADAU** i Tomos Salisbury, Talgwynedd, ar ei lwyddiant yn ei arholiadau Lefel A a phob dymuniad da iddo ym Mhrifysgol Bangor y tymor nesaf. Hefyd llongyfarchiadau i Alice, Tŷ Gerddi Uchaf, ar ennill gradd BA mewn Eidaleg a Saesneg ym Mhrifysgol Bangor.

**CYDYMDEIMLAD.** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Hilda Orritt a'r teulu, Moranedd, yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl yn Llanberis.


BYSUS RHIWLAS



Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce

AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org

01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf




**Arholiadau.** Llongyfarchiadau i bawb a dderbyniodd ganlyniadau arholiadau yr haf yma, pob lwc i chwi i'r dyfodol.

Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012. Llongyfarchiadau i bawb o Ddeiniolen a'r ardal a fu'n cystadlu yn yr eisteddfod eleni, roeddem yn falch iawn o'u gweld i gyd yn cyrraedd y llwyfan ac yn rhoi perfformiadau safonol dros ben.

**Piano.** Llongyfarchiadau i Catrin Llewelyn am lwyddo i basio gradd 7 piano yn ystod yr haf.

Gwellhad buan. Estynnwn ein cofion at Dylan Lewis, Rhydfadog, sydd yn gwella yn yr ysbyty wedi damwain echrydus yn ddiweddar

**Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen.** Hoffai'r clwb ddiolch yn ddirfawr i griw bingo Tŷ Elidir am eu rhodd hael unwaith eto eleni tuag at y clwb, mae'n cael ei werthfawrogi yn fawr.

Cafwyd noson wobrwyo hynod o lwyddiannus i holl chwaraewyr y clwb yn ystod yr haf gyda gŵr gwadd arbennig yn rhannu'r gwobrwyon, sef y cyn chwaraewr rhyngwladol Malcolm Allen, diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ag am eu cefnogaeth i ddod.

Er hynny mae pryder nad oes digon o wirfoddolwyr yn rhoi eu enwau ymlaen i helpu gyda rhedeg y timau, mae'n debygol na fydd tîm dan 7 eto eleni os na ellir cael gwirfoddolwr i roi eu henw ymlaen, os oes gan unrhyw un ddiddordeb, wnewch chi plîs gysylltu gyda Glyn ar 872133.

**Diolch.** Dymuna Brenda ddiolch i bawb â'i chefnogodd ar y diwrnod agored yn 6 Rhydfadog ar Awst 18fed i godi arian tuag at Gronfa Dylan Lewis. Diolch arbennig i Buddug, Carol, Liz a Dewi am eu cymorth gwerthfawr a hefyd i'r rhai a gyfrannodd wobrau at y raffl. Fe godwyd swm o £304 ar y diwrnod, diolch o galon i bawb, gobeithiwn pob dymuniad da a llwyr adferiad i Dylan yn dilyn ei ddamwain erchyll.

**Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch.** Mae rhaglen eisteddfod eleni ar gael erbyn hyn, atgoffir pawb fod yr eisteddfod yn cael ei chynnal ar Hydref 27ain a gobeithio y bydd pawb yn cefnogi trwy gymryd rhan yn y cystadlaethau a chefnogi ar y diwrnod.

**Diolch.** Dymuna Awel, Brenhines Gŵyl Deiniolen, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl anrhegion, arian a'r tocynnau a dderbyniodd tra yn frenhines. Hefyd diolch i Bwyllgor yr Ŵyl am eu gwaith caled a wnaeth ei hwythnos yn un fythgofiadwy.

**Ysgol Gwaun Gynfi.** Clwb Cant. Enillwyr mis Ebrill oedd: 1. (95) Glenys Owen; 2. (6) Mandy Owen; 3. (110) Katie W. Jones.

Enillwyr Mai: 1. (29) Elan Williams; 2. (22) Lynda Ann Owen; 3. (131) Berwyn Davies.

Enillwyr Mehefin: 1. (109) Della Jones; 2. (103) Deian Parry; 3. 33) Rebecca Taylor.

Diolch yn fawr i bawb am ymaelodi yn y Clwb Cant eleni. Os oes gan unrhyw un diddordeb mewn ymaelodi cysylltwch ag Eleri Bean, neu galwch i mewn i'r ysgol.

**Gŵyl Deiniolen a'r Cylch.** Cafwyd wythnos lwyddiannus iawn unwaith eto y flwyddyn yma. Hoffwn ar ran Cylch Meithrin Deiniolen ddiolch o galon i bawb a wnaeth ein cefnogi ni dros ŵyl y Carnifal ac i'r rhai ohonoch a fu'n helpu. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd i'w gwneud hi'n wythnos gwerth chweil.


BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU

Conservatori UPVC

Trwsio Unedau "DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772

Symudol- 07840 794269

## DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

**CYDYMDEIMLO.** Yr ydym fel ardal yn cydymdeimlo yn fawr â Sharon Bull, Ger y Coed. Bu iddi golli ei mam yn ystod y gwyliau, colled fawr iawn iddi. Gobeithio y bydd iddi gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma. Profedigaeth fawr yw colli mam, does neb fel mam.

**ADREF O'R YSBYTY.** Da yw deall fod Mrs Dilys Williams, Bron Elidir, o'r diwedd wedi cael dod adref o'r ysbyty. Bu i Mrs Williams fynd i Ysbyty Gwynedd i gael llawdriniaeth ond gan i bethau fynd allan o le, aeth yn fwy o driniaeth nag oedd neb wedi ei ragweld. Bu yn Ysbyty Gwynedd am beth amser ac yna yn Ysbyty Eryri, ond erbyn hyn y mae yn gwella yn araf deg a gobeithio bod y cyfan o'i hôl erbyn hyn. Brysiwch wella, Dilys.

Hefyd bu Mrs Donna Owen, 8 Bro Elidir, yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae hithau adref erbyn hyn ac yn gwella yn dda iawn. Brysia dithau wella yn llwyr, Donna, a bydd ofalus. Paid â gwneud gormod.

**MARWOLAETH.** Yn yr Eco y mis diwethaf bu imi gyfeirio am yr amser pryderus yr oedd teulu Fron Dirion yn ei gael. Yn anffodus, ar y 6ed o Orffennaf, bu farw Mrs Margaret Faulkener yn Ward Alaw Ysbyty Gwynedd yn dawel yng nghwmni ei mab, Jeremy. Cafodd salwch blin iawn ac mae'r golled i'r teulu yn fawr iawn. Yr oedd yn 83 mlwydd oed. Bu ei hangladd yn gyhoeddus yn Eglwys Santes Helen Penisarwaun ar 13 Gorffennaf, lle yr oedd y teulu o Loegr wedi dod ynghyd a'i ffrindiau o'r ardal, ac aelodau o Glwb Elidir.

Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym Mynwent yr Eglwys. Cymerwyd yr angladd gan Ficer yr Eglwys, sef y Parchedig Lloyd Jones. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r phriod, Rex, sydd yn tynnu am ei 90 mlwydd oed, andros o brofedigaeth iddo a'r golled yn fawr. Hefyd, cydymdeimlwn â Jeremy a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth. Boed iddynt gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma.

**BABI NEWYDD.** Llongyfarchiadau mawr i Ffion a Tegryn, 1 Bro Elidir, ar enedigaeth eu merch fach ar 19 Gorffennaf. Efa Jane yw'r enw ac y mae yn dod yn ei blaen yn iawn. Llongyfarchiadau i Gwyneth ar ddod yn nain unwaith eto. Maent wedi gwirioni yn lân. Pob bendith, iechyd a hapusrwydd i'r teulu bach newydd.

**DYMUNIADAU GORAU.** Erbyn hyn gwaetha'r modd, y mae y dyddiau yn tynnu i mewn, felly wrth gwrs y mae gwyliau'r haf yn tynnu tua'u terfyn. Carwn ddymuno yn dda i'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol ac yn mynd i'r coleg neu i unrhyw swydd arall, a charwn gofio hefyd am y rhai fydd yn gorfod mynd i'r ysgol am y tro cyntaf gan newid eu byd bach diniwed yn gyfan gwbl am byth, gan gofio nad oes ganddynt syniad beth sydd o'u blaenau.

**ARHOLIADAU.** Llongyfarchiadau mawr i'r rhai sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau, gan obeithio eu bod yn hapus ac y gallant fynd ymlaen â beth bynnag yr oeddynt wedi edrych ymlaen i'w wneud.

Hwyl fawr a phob lwc i'r holl blant i'r dyfodol.

## NANT PERIS

**THOMAS, MYFANWY**

Dymuna teulu y diweddar Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa, Nantperis, ddiolch o waelod calon i gyfeillion a chydnabod, pell ac agos, am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ddiweddar ar farwolaeth eu Mam. Dymunant hefyd ddiolch am bob cymwynas a dderbyniodd eu Mam ac am yr offrwm anrhydeddus er cof amdani. Cyflwynwyd siec am £1,001 i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. Diolch yn fawr.

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

**DIOLCHIADAU**. Dymuna teulu y diweddar Gavin Carr ddiolch i'w ffrindiau, teulu a chymdogion am yr holl gardiau, galwadau ffôn a chydymdeimlad tuag atynt yn eu colled fawr o fab a brawd arbennig. Casglwyd dwy fil o bunnau tuag at Cangen M.S. Gwynedd a Môn. Diolch o galon i bawb.

**NOSON ADLONIANT.** Cynhelir Noson Adloniant am 7 o'r gloch, Nos Wener, Medi'r 21ain yn y Clwb Cymdeithasol. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Ymchwil Cancr a'r Gymdeithas Alzheimer.

Gweler yr hysbyseb yn y rhifyn yma o'r Eco am fwy o wybodaeth.

**DIOLCHIADAU.** Dymuna brodyr a chwiorydd y ddiweddar Beryl Jean Owen, gynt o 8 Maes Derlwyn, fu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sadwrn, Awst 11eg yn 85 mlwydd oed, ddatgan eu diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Diolch arbennig i'r Barchedig Ddr. Carol Roberts am ei ffyddlondeb ac am y Gwasanaeth diffuant a gafwyd ddydd yr angladd, sef dydd Gwener, Awst 17eg, yn Eglwys Sant Padarn ac i ddilyn ym Mynwent Nant Peris.


Ein mawr ddiolch hefyd i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am ei drefniadau trylwyr yn ystod yr achlysur.

**PWYLLGOR Y GANOLFAN.** Bydd Cyfarfod Blynyddol o bwyllgor Ganolfan Gymdeithasol Llanberis yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan am saith o'r gloch yr hwyr ar nos Fercher, 19eg Medi. Mae gan bob enwad gwirfoddol yn y pentref hawl i gael cynrychiolydd ar y pwyllgor. Erfyniwn am eich presenoldeb.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU


PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260

PRYDAU DA AR GAEL POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS
Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch
TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00
Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277


**Arfon Wyn yn adrodd hanes**

# "Hogyn o Lanberis a'r Spitfire"



Gan ei bod yn flwyddyn dathlu 70 mlynedd Brwydr Prydain (Battle of Britain) eleni, addas fyddai rhoi hanes difyr hogyn ifanc 18 oed o Lanberis a fu wrthi yn gweithio'n ddygn fel peiriannydd yn adeiladu a thrwsio awyrennau y Spitfire a thebyg yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac ar gyfer y frwydr fawr dyngedfennol honno.

Dyma'r hanes a ysgrifennodd fy nhad, Eric Wyn Humphreys, a fagwyd yn Llainwen, Llanberis, yn ugeiniau y ganrif ddiwethaf.

Aeth i Ysgol Gynradd Llanberis ac i Ysgol Brynrefail cyn mynd i weithio i'r chwarel yn 1936 yn 14 mlwydd oed. Ymhen pedair blynedd fe'i galwyd i'r Awyrlu fel 'flight mechanic' i adeiladu a thrwsio'r awyrennau diweddaraf a ddefnyddiwyd ar y pryd.

Dyma'r stori unigryw yn ei eiriau ef ei hun. Darganfyddwyd y stori a'r hanes hwn mewn hen 'note-pad' gan fy mam, Beti Humphreys (gwraig Eric) yn 17 Trem Eryri, Llanfairpwll.

Cyn symud i fyw i 19 Llainwen, Llanberis, bûm yn byw am gyfnod byr ym Mhen Pandy yn y pentref a Robat Hughes drws nesa yn dad bedydd i mi, medda nhw. Rhyw 5 oed o'n i pan symudon ni i rif 19. Cofiaf yn ôl i tua 1929, fy chwaer Gwyneth, yn cael ei geni yn y tŷ a minnau wedi mynd i fyny'r grisiau at mam i'r llofft ffrynt a gweld eira reit i ben y cloddia. A dyna, wrth gwrs, sut cafodd GWYNeth ei henw.

Oddi yno, ymhen amser, i Fryn Eilian, tŷ a adeiladodd fy hen daid (taid fy mam). Ond yr oedd yr Eglwys Wladol (Ruthin Charities) wedi meddiannu'r tŷ am nad oedd ond 99 mlynedd o les arno pan brynwyd y tir, fel llawer o dai eraill yn y pentref.

Rhaid oedd i fy nhad a'm mam wneud cais am Bryn Eilian i'r asiant, Mr Thomas Pritchard, ac yntau wedi gaddo ei osod i un o weithwyr y stad. Fe ysgrifennodd fy nhad at yr Aelod Seneddol neu rywun pwysig arall a dweud mai fy hen daid a'i hadeiladodd ac fe gafodd fy mam a nhad fyw yn y tŷ ar ôl brwydr. Yno y ganwyd fy mrawd, John Raymond, yn 1932.

Wedi hynny, er y brwydro, symud fu raid eto, roedd y tŷ'n rhy fychan i deulu o wyth. Cael tŷ cownsil, neu dŷ cyngor yn iaith heddiw, yr ochor arall i'r pentref, ddim yn bell o lein y Wyddfa. Symud yno hefo 'hand cart' wedi cael ei fenthyg gan Mr Hughes, Stesion. Mudo yno ddechrau 1938, cyn y rhyfel. Dwi'n cofio'n glir clywed Neville Chamberlin yn siarad ar y radio ac yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn Hitler a'r Almaen am eu bod wedi mynd â'u milwyr i wlad arall – Poland, a'i meddiannu.



Ar ôl bod yn ysgol gynradd Llanberis a chael llawer o hapusrwydd tan yr oeddwn yn 11 oed, fe lwyddais i basio yr arholiad i fynd i Ysgol Ramadeg Brynrefail, drwy drwch blewyn. Roeddwn yn sobor o wael yn yr iaith fain ac yn siarad Cymraeg yn rhy debyg i'r Cofis meddai rhai, wel Cofi oedd fy nhad, Jack Wmffras, wedi'r cyfan. Mathemateg oedd fy mhwnc gorau ac fe basiais yr arholiad am i mi gael 'ffwl marcs' yn y papura 'syms' a 'Rithmetic. Ddaeth dim llawer o lwyddiant i mi yno, athrawon diamynedd efo rhai araf deg mewn Saesneg fel fi. Ond yr oedd yno rai oedd yn plesio'n fawr, fel Mr Robert Morris a Mr William Roberts a oedd yn dysgu Gwaith Coed a Chanu, rhai o fy hoff bynciau. Mr Morris oedd fy athro Ysgol Sul yng Nghapel Preswylfa hefyd, dyn rhagorol.

## Gweithio yn y Chwarel

Oddi yno wedyn i'r Chwarel. Cofiaf y diwrnod yn iawn pan gefais fy ngalw i'r Offis Fawr yn 14 oed, at Mr O.T. Williams, y Rheolwr, i gael cyfweliad. Curo'r drws mawr coch wedi ei daenu fel bwrdd snwcer mawr a channoedd o hoelion ar ei wyneb. Clywais lais o bell yn dweud,

'I mewn,' a gweld dyn mawr efo gwallt gwyn a sbectol ar flaen ei drwyn yn eistedd a desg fawr o'i flaen.

'Pwy wyt ti?' meddai. 'Pwy ydi dy dad?'

Finnau'n ateb yn grynedig, 'Tydi Dad ddim yn gweithio yma, gafodd o ei anafu yn y Rhyfel.'

'Pwy oedd dy daid, ta?' meddai'r Rheolwr.

Atebais yn grynedig eto, 'Dicw Parry.'

'Os wt ti gystal gweithiwr â dy daid fe fyddi di'n iawn. Dechra dydd Llun.'

Fy nghyd ymgeisydd y diwrnod hwnnw oedd How Bach (Joci) o Gaeathro, ger Caernarfon, un annwyl dros ben ond ddim yn gweithio yn yr un lle (Bonc) a mi. Hafod Owen oedd y bonc y dechreuais i arni gyda gŵr fy nghyfnither, Johni, yn enedigol o Gwm y Glo. Roedd sôn am deulu ei dad fel gweithwyr caled; enw ei dad oedd Jack Sarn Evans. Roeddwn yn 'rybela' i ddechrau a 'cadw cownt' fy hun. Cefais fy nysgu gan lawer un a phawb yn helpu a rhoi cyngor i hogyn ifanc newydd ddechrau. Fe gefais 'glytiau bach' i mi ymarfer hollti a gwneud llechi ohonynt.

Yn ogystal fe fyddwn yn 'gwneud negeseuon' i'r Stiward a'r Marciwr a cael chwe cheiniog am fynd bob tro. Gorfod mynd i ben y chwarel weithiau ond y wobr yr un fath bob amser beth bynnag fo'r pellter. Chwe cheiniog y tro ond dim mwy na deuddeg neges bob mis a chwe swllt oedd yr uchafswm a roddwyd.

Cofiaf fy hun yn cael £3 y mis cyntaf o 'Gyfri Mawr' (bonus). Naw swllt a chwe cheiniog oedd y cyflog wythnosol ond ar ddiwedd mis y cafwyd y Cyfri Mawr. Roeddwn yn mynd â'r cyflog oll adref i mam ac yn cael swllt yn fy mhoced yn ôl ganddi, a hynny yn wythnosol. Roedd llawer i'w gael am swllt yn 1937.

(parhad y mis nesaf a'i hanes yn ymuno â'r Awyrlu)

**H.E. HUGHES**
**A'I FEIBION**
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

**MERCHED Y WAWR.** Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor nos Fawrth cyntaf Medi, sef 4 Medi, am 7.30 o'r gloch yn Festri Capel y Rhos.

Y gŵr gwadd fydd Robat Arwyn, Rhuthun, sydd yn mynd i roi sgwrs i ni dan y teitl 'Y Stori Tu ôl i'r Gân'. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd ynghyd ag unrhyw un arall sydd yn awyddus i glywed y sgwrs ddifyr hon. Dowch yn llu.

**PLAID CYMRU.** Enillwyr Clwb Cant Gorffennaf:

1. Siôn Humphreys, Bryngwyn; 2. Ellen George, Brynrefail.

Awst: 1. Gwawr Morris, Llanuwchllyn; 2. Gwenda Roberts, Hafle, Llanrug.

**Y SEFYDLIAD COFFA.** Enillwyr y Clwb Cant Mehefin: 1. Mrs M Griffith, 2 Hafan Elan; 2. Mrs M. Roberts, Tai Minffordd; 3. M Axon, 13 Hafan Elan.

Gorffennaf: 1. G. Thomas, Gwenallt, Rhyddallt Terrace; 2. A. Jones, 12 Hafan Elan; 3. G. Davies, Bod Awel.

**MERCHED Y WAWR.** Dalier Sylw. Bydd y Gangen yn cyfarfod nos Fawrth, 4 Medi am 7.30 yh yn Festri Capel y Rhos. Y gŵr gwadd fydd yr hynaws Robat Arwyn – felly argoelir am noson i'w chofio. Mae croeso twymgalon i aelodau newydd ymuno ac yn arbennig felly, y dysgwyr.

Fel aelodau rydym yn gwneud pob math o bethau amrywiol, ciniawan, cwisiau, crefftau, chwaraeon, cynorthwyo elusennau – pob math o bethau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Dowch i gymdeithasu a gwneud rhywbeth cadarnhaol a chael hwyl wrth wneud hynny. Bydd y Gangen yn cyfarfod ar yr ail nos Fawrth fel arfer o Hydref ymlaen yn y Sefydliad Coffa.

**PROFEDIGAETHAU.** Bu farw Mrs Ceri Hughes (Hafan, Ffordd Glanmoelyn gynt) yn 94 mlwydd oed. Bu yn trigo yng Nghartref Plas Pengwaith yn ddiweddar, lle y cafodd ofal arbennig iawn. Roedd yn weddw i Elwyn, a fu farw ugain mlynedd i'r diwrnod yn ôl. Mam annwyl a charedig i Gwyndaf a Mair, Alun ac Eirwen a nain hynod i Rhodri ac Esyllt, Gwion a Meinir, Olwen a Llŷr. Hen nain hoffus i Macsen, Tomos, Nanw a Berian a chwaer i Tudwen. Roedd yn hynod o hoff o arddio, tyfu llysiau yn enwedig. Mi fydd colled fawr i'r teulu a'i llu ffrindiau. Cydymdeimlwn yn ddwys â chwi i gyd.

Hefyd, yn 90 oed, bu farw Mrs Eirwen Williams, Bryn Gro, gweddw Evan a mam hoffus iawn i Doreen a Robin, Ann a'r diweddar Dennis. Nain annwyl Alison, Menna, Rhys a Thomas, chwaer annwyl i Katie, Nancie a Bryn a modryb hoff i'w holl nithoedd a neiaint.

Bu Mrs Williams yn weithgar iawn yn y pentref am flynyddoedd, yn aelod o'r Cyngor Cymuned ac yn flaenllaw iawn yn codi arian a threfnu i gael cae chwarae yn Glanmoelyn. Roedd yn brosiect agos iawn at ei chalon. Hyd y diwedd, roedd ei diddordeb yng gweithgareddau y pentref yn dal i fod a phob amser yn barod i rannu gwybodaeth o'i phrofiadau.

Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

**CLWB CANT Y BAND.** Enillydd y Clwb Cant am fis Mai oedd rhif 11, Michael Thomas, Caernarfon.

**DIOLCHIADAU.** Dymuna Angela, 12 Nant y Glyn, ddiolch i'r teulu a'i ffrindiau pell ac agos am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ben-blwydd arbennig.

**BRYSIWCH WELLA.** Deallwn fod Mrs Roberts, Ceris, Lôn Groes, yn glaf yn yr ysbyty. Anfonwn ddymuniadau gorau ati am wellhad buan.

**CANLYNIADAU ARHOLIADAU.** Erbyn hyn bydd canlyniadau'r arholiadau wedi cyrraedd. Dymunir pob llwyddiant i chi i gyd.

**MARWOLAETH.** Trist iawn oedd y newydd am farwolaeth sydyn iawn Edward Elias, cyn Brifathro Ysgol Chwilog. Bu Edward yn dysgu ein plant yma yn Llanrug am flynyddoedd. Roedd yn hynod o boblogaidd gyda'r plant a'u rhieni ac roedd wedi dysgu blynyddoedd ohonynt i ddawnsio gwerin a chystadlu mewn eisteddfodau. Roedd mor weithgar hyd yn oed mor ddiweddar ag Eisteddfod yr Urdd eleni, lle roedd yn gyfrifol am ddysgu a llwyfannu sioe y plant gyda Ken Hughes.

Bydd andros o golled ar ei ôl ac anfonwn ein cofion diffuant at Wena, Berian ac Elgan.

**LLONGYFARCHIADAU** i Catrin Thomas a Gwyndaf Rowlands, Glanffynnon ar eu priodas ddiweddar yn Llundain tra'n gwylio cystadleuthau'r Gemau Olympaidd.

**DIOLCH.** Dymuna Catrin a Gwyndaf ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

**BORE COFFI MCMILLAN.** Cynhelir bore coffi yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug ar ddydd Gwener, 28ain o fis medi o ddeg y bore hyd ddau y pnawn. Yr holl elw tuag at Gronfa McMillan.

**PLAID CYMRU.** "Y Beirdd a Glyndwr" fydd testun noson yng nghwmni'r Prifardd Ieuan Wyn yn Y Sefydliad Coffa, nos Fercher, Medi 19eg am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

**DIOLCH.** Dymuna Vera a Clifford Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn dathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

**CAPEL Y RHOS.** Gorffennaf 14eg, gyda'r Parchedig Marcus Wyn Robinson, y Gweinidog, yn gweinyddu, priodwyd Heledd Angharad Williams ac Iwan Llŷr Owen. Maent wedi ymgartrefu ym Mhen y Cae, Llanrug. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

**OEDFAON MEDI**

2: am 5.30: Parch W R Williams, Y Felinheli

9: am 5.30: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon pryd y Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

16: am 2: Parch D John Pritchard, Llanberis

23: am 5.30: Mrs Glenys Jones, Pwllheli

30: am 5.30: Mr John H Hughes, Llanberis.


ARVONIA




- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonia.co.uk • Gwefan: www.arvonia.co.uk

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CERIS JONES
Teglan,
Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979620996
- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol




# Cyfrol newydd yn cyfleu gwir harddwch glannau Cymru

**Mae Cymru'n fwy na pharod am y cynnydd sylweddol a ddisgwylir mewn pobl yn dewis mynd ar eu gwyliau'n lleol. Fis Mai eleni gwelwyd agoriad swyddogol Llwybr Arfordir Cymru, y llwybr hiraf di-dor o'i fath a'r cyntaf o amgylch gwlad gyfan.**

Mae'r awdur Dei Tomos, a'r ffotograffydd Jeremy Moore, wedi creu llyfr unigryw sy'n cofnodi'r golygfeydd godidog a'r hanes rhyfeddol sydd i'w gael ar hyd y llwybr hwn sy'n 870 milltir o hyd, llwybr a gafodd ei ddisgrifio fel 'cyrchfan gorau'r byd yn 2012' gan lyfryn Lonely Planet.

Mae Cymru ar Hyd ei Glannau (Gomer) yn tywys darllenwyr ar daith anhygoel o gwmpas arfordir Cymru, gyda llawer o'r llwybr yn mynd trwy ardaloedd sy'n bwysig ac yn adnabyddus y tu allan i Gymru oherwydd y golygfeydd rhagorol, y bywyd gwyllt ac olion hanesyddol pwysig.

Ar hyd y daith mae 1 Geopark (GeoMôn), 1 Warchodfa Natur Forol (Sgomer), 2 Barc Cenedlaethol (Eryri a Phenfro), 3 Ardal o Harddwch Eithriadol (Môn, Llŷn a Gŵyr), 11 Gwarchodfa natur Genedlaethol, 14 Arfordir Treftadaeth a 23 o safleoedd sydd ar Restr Tirluniau Hanesyddol!

Mae'r llyfr wedi'i rannu yn 10 pennod fesul ardal, ac mae'n arddangos y llefydd a'r golygfeydd hardd y mae modd eu gweld wrth droedio Llwybr Arfordir Cymru. O geg Afon Dyfrdwy ar hyd glannau gogledd Cymru gyda'i threfi glan y môr, dros y Fenai i Ynys Môn, o Benrhyn Llŷn i lawr i ehangder mawreddog Bae Ceredigion, drwy unig Barc Cenedlaethol arfordirol Prydain yn Sir Benfro, ar hyd milltiroedd o dywod melyn, heibio Gŵyr a'i olygfeydd godidog, ar hyd glannau Bae Caerdydd a Chaerdydd, prifddinas Cymru, i dref farchnad Cas-gwent ar y ffin â Lloegr.

Dywedodd Dei Tomos, 'Fe ges i lawer o bleser personol ar y daith o greu'r llyfr yma. Fy ngobaith i yw, wrth ddarllen y llyfr, y bydd llawer mwy o bobl yn dod i werthfawrogi'r ffaith bod ardaloedd arfordirol sydd heb eu datblygu yn adnoddau gwerthfawr, a dylid eu gwarchod, eu trysori, a'u cadw nhw mor naturiol ag sy'n bosibl. 'Ers cyhoeddi y byddai llwybr y glannau yn agor yn 2012 bu llawer o edrych ymlaen – does ond gobeithio y daw'r fenter ardderchog hon â phleser i laweroedd ynghyd â budd economaidd, oherwydd mae Cymru'n gyfan yma.'

Ychwanegodd Jeremy Moore, 'Profodd y ddwy flynedd y bûm yn gweithio ar y ffotograffau yn fordaith o ddarganfyddiad gwirioneddol. Mae arfordir Cymru tua 1,700 milltir o hyd, o gyfrif yr ynysoedd hefyd, ac felly ni allai fod yn ddim llai na hynny. Ond lawn mor gynhyrfus weithiau oedd sylweddoli fy mod wedi tynnu llun lleoliad cyfarwydd mewn ffordd anghyfarwydd.

'Yn ystod fy ngwaith ar y llyfr, deuthum yn ymwybodol o'r term "seicoddaearyddiaeth", ac fel un sydd â gradd mewn seicoleg ganddo a diddordeb ym mhob peth sy'n ymwneud â daearyddiaeth, cefais fy nghyfareddu. Ymddengys bod i'r gair gynifer o ystyron ag sydd yna o rai yn defnyddio'r term, gan gynnwys penseiri, anarchwyr, athronwyr ac awduron yn enwedig. Ond nid ffotograffwyr.

'Mae un diffiniad o seicoddaearyddiaeth yn awgrymu ei fod yn astudiaeth o gyfarfyddiad pobl a lle, y modd y mae ein hamgylchfyd yn dylanwadu arnom ni a ninnau ar ein hamgylchfyd. Pwy well i ymgymryd â hyn na ffotograffydd? Er hynny, hyd y gwn i, ni chafodd y term ei ddefnyddio felly erioed.'

Cymru ar Hyd ei Glannau
Dei Tomos a Jeremy Moore
Pris: £19.99

# Ffermwyr Ifanc Eryri

Nodyn byr i wahodd eich darllenwyr i ddigwyddiad arbennig sydd i'w gynnal ym Mart Bryncir ar nos Wener, 14 Medi. Bydd Dylan 'Beefy' Jones, Cadeirydd Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru, yn ymuno â ni am seibiant yn ystod ei daith o amgylch swyddfeydd y mudiad yng Nghymru. Codi arian i Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yw nod Dylan yn ystod ei daith ac, i roi hwb i'r coffrau, rydym ni fel Mudiad yn Eryri am gynnal noson o adloniant, BBQ ac Ocsiwn Addewidion ar y nos Wener.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â Dylan ar ei daith yn ystod y dydd o swyddfa Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, cae Sioe Môn i Fryncir!

Cysylltwch â'r swyddfa ar 01286 831214 am fanylion.

Dewch yn llu – Efallai y cewch fargen yn yr ocsiwn.

# CÔR DINAS BANGOR


Yn ystod misoedd yr haf bu'r Côr yn brysur iawn yn cynnal cyngherddau, yn enwedig yn Eglwysi St John a Holy Trinity Llandudno yn ogystal ag Eglwys St Mair, Betws y Coed. Cafwyd derbyniadau gwych yn y tair eglwys fel arfer. Ar nos Lun 23 Gorffennaf canodd y Côr mewn cyngerdd arbennig yn Eglwys Crist, Llanfairfechan ynghyd â Chorau Meibion Caergybi a Mansfield. Canodd y tri chôr fel un a hefyd fel corau ar wahân ac fe gafwyd sawl unawd hefyd. Yr oedd yr eglwys yn orlawn a gwnaed elw da tuag at Cronfa Ymchwil y Galon.

Ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf bydd y Côr yn dathlu chwarter canrif ers y sefydlu gan James Griffiths yn Ionawr 1988. Bydd James Griffiths ei hun yn ymddeol o fod yr Arweinydd ar ôl y dathlu ond, wrth reswm, bydd y Côr yn cario 'mlaen o dan arweinydd newydd fydd, gyda gobaith, yn cael ei benodi yn y flwyddyn newydd. Gobeithir dathlu y digwyddiad pwysig hwn mewn ffordd addas ac fe geir mwy o fanylion maes o law.

# DRAENOG.

Da deall fod gwlân lleol yn cael ei farchnata fel deunydd arbennig o dda ar gyfer gwneud gwelyau cyfforddus. Mae perchennog y cwmni o Lanrug wedi profi gwerth y gwlân yn ystod yr wythnosau diwethaf, gan iddo gysgu ar fyrnau gwlân gydol un nos Sadwrn. Roedd mor gyfforddus fel na allai neb ei ddeffro!

Bydd y gwlân yn cael ei farchnata dan yr enw Gwelyau Gwlân Mihangel, ac eisoes cafwyd archeb o Kent.




# HUW OWEN 'FFRIND'

o'r sioe 'Sbri' (Sain LL014)
Sengl newydd gan Huw Owen o'r gân 'Ffrind' o'r sioe 'Sbri'.
Disgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, ydi Huw Owen ac o Lanberis yn wreiddiol. Cymerodd ran yn sioe gerdd uwchradd yr Urdd 2012, a chân o'r sioe honno mae Huw yn ryddhau ar label Sain, 'Ffrind', wedi'i chyfansoddi gan Tom ap Dan.
Ar gael i'w lawr-lwytho o iTunes am £0.79
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Lois – lois@sainwales.com neu Ellen – ellen@sainWales.com
Ffôn: 01286 831111

**Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057
www.gwynedd.gov.uk

Ysgol Brynrefail

Veritate - Scientia - Labore







Canlyniadau Mabolgampau
BECHGYN BLWYDDYN 7
100m: Iwan Parry; 2. Dion Jones; 3. Sam Eade
200m: 1. Iwan Parry; 2. Llion Roberts; 3. Ifan Gwynn
800m: 1. Gethin Thomas; 2. Trystan Davison; 3. Iwan Parry.
Ras Gyfnewid: 1. Elidir; 2. Eilian; 3. Gwyrfai; 4/ Eryri.
Shot: 1. Cai Rowlands; 2. Jordan Jones; 3. Iwan Jones.
Disgen: 1. Shaun Owen; 2. Sam Eade; 3. Llion Roberts.
Picell: 1. Ben Jones; 2. Cai Rowlands; 3. Jac Davies.
Naid Hir: 1. Lee Williams; 2. Dion Jones; 3. Owen Bursnall.
Naid Driphlyg: 1. Trystan Davison; 2. Iwan Parry; 3. Cai Rowlands.

GENETHOD BLWYDDYN 7
100m: 1. Ria Owen; 2. Mair Loxton; 3. Lois Jones Hughes.
200m: 1. Ria Owen, 2. Mair Loxton; 3. Zoe Wood.
800m: 1. Mair Loxton; 2. Zoe Wood; 3. Cara Jones.
Ras Gyfnewid: 1. Gwyrfai; 2. Eilian; 3. Elidir; 4. Eryri.
Shot: 1. Molly Roberts; 2. Enlli Roberts; 3. Annest Price.
Disgen: 1. Annest Price; 2. Enlli Roberts; 3. Molly Roberts.
Picell: 1. Elen Ifans; 2. Megan Crisp; 3. Chloe Owen.
Naid Hir: 1. Mair Loxton; 2. Zoe Wood; 3. Beca Roberts.
Naid Uchel: 1. Sara Roberts; 2. Cara Jones; 3. Elin Glyn.

BECHGYN BLWYDDYN 8
100m: 1. Nathan Pycroft; 2. Gethin Hughes Jones; 3. Siôn Alun Jones.
200m: 1. Nathan Pycroft; 2. Siôn Alun Jones; 3. Ancel Davison.
300m: 1. Nathan Pycroft; 2. Siôn Alun Jones.
800m: 1. Nathan Pycroft; 2. Tomos Jones; 3. Iwan Jones.
1500m: 1. Tomos Jones; 2. Iwan Jones; 3. Sion A. Jones.
Ras Gyfnewid: 1. Eilian; 2. Eryri; 3. Elidir; 4. Gwyrfai.
Shot: 1. Danny Jones; 2. Gethin Jones; 3. Dafydd Griffiths.
Disgen: 1. Celt Denham; 2. Gethin Jones; 3. Ancel Davison.
Picell: 1. Danny Jones; 2. Leon Moorhouse; 3. Osian Rees.
Naid Hir: 1. Gwion Williams; 2. Siôn A. Jones; 3. Tim Williams.
Naid Driphlyg: Siôn A. Jones; 2. Gwion J. Williams; 3. Math Roberts.
Naid Uchel: 1. Gwion J. Wiliams; 2. Math Roberts; 3. Ifan Roberts.


GENETHOD BLWYDDYN 8
100m: Tara Worbey; 2. Llinos Jones; 3. Kushla E. Kingston
200m: 1. Tara Worbey; 2. Llinos Jones; 3. Kushla E. Kingston.
800m: 1. Llinos Jones; 2. Ffion Warner; 3. Sioned Phillips.
1500m: 1. Llinos Jones; 2. Ffion Warner; 3. Kushla E. Kinston.
Ras Gyfnewid: 1. Eryri;'2. Eilian; 3. Elidir.
Shot: 1. Rhiannon Thomas; 2. Sioned Phillips; 3. Becky Roberts.
Disgen: 1. Bethan Jones; 2. Sioned Phillips; 3. Rhiannon Thomas.
Picell: 1. Bethan Jones; 2. Sioned Phillips; 3. Kushla E. Kingston
Naid Hir: 1. Rhiannon Thomas; 2. Enlli Pritchard; 3. Kushla E. Kingston.
Naid Driphlyg: 1. Llinos Jones; 2. Enlli Pritchard; 3. Bethan Jones.
Naid Uchel: 1: Llinos Jones a Rose Harper; 2. Bethan Jones; 3. Lisa Hughes.

BECHGYN BLWYDDYN 9
100m: 1. Peter Mansoor; 2. Siôn Roberts; 3. Steffan Cai Jones.
200m: 1. Peter Mansoor; 2. Jordan Eade; 3. Sion Roberts.
300m: 1. Siôn Roberts; 2. Guto Pierce; 3. Dafydd Llywelyn.
800m: 1. Dafydd Llywelyn; 2. Guto Pierce; 3. Ifan Emlyn.
1500m: 1. Dafydd Llywelyn; 2. Guto Pierce; 3. Dru Thomas.
Ras Gyfnewid: 1. Eilian; 2. Eryri; 3. Elidir; 4. Gwyrfai.
Shot: 1. Dion Roberts; 2. Mathew Tate; 3. Cian McDermot.
Disgen: 1. Guto Pierce; 2. Gwern Brookes; 3. Rhydian Price.
Picell: 1. Cian McDermot; 2. Dru Thomas; 3. Ryan Fergusson.
Naid Hir: 1. Cian McDermot; 2. Dafydd Llywelyn; 3. Jordan Eade.
Naid Driphlyg: 1. Jordan Eade; 2. Guto Pierce; 3. Dafydd Llywelyn.
Naid Uchel: 1. Rhieinallt Hedd; 2. Jordan Eade; 3. Dafydd Llywelyn.

GENETHOD BLWYDDYN 9
100m. 1. Lois Regan; 2. Anest Jones; 3. Kerry Meek.
200m: 1. Lois Regan; 2. Sophie Richards; 3. Alaw Prys.
800m: 1. Lois Regan; 2. Alaw Prys; 3. Ellie Williams.
1500m: 1. Lois Regan; 2. Sophie Richards; 3. Alaw Prys.
Ras Gyfnewid: 1. Eryri; 2. Eilian; 3. Gwyrfai, 4. Elidir.
Shot: 1. Sophie Richards; 2. Alaw Prys; 3. Kate Humphries.
Disgen: 1. Katie Lloyd; 2. Elain Roberts; 3. Hanna Kirby.
Picell: 1. Tesni Haf; 2. Nia Roberts; 3. Sophie Richards.
Naid Hir: 1. Sophie Richards; 2. Alaw Prys; 3. Kate Humphreys.
Naid Driphlyg: 1. Alaw Prys; 2. Lois Regan; 3. Sophie Richards.
Naid Uchel: 1. Lois Egan; 2. Kerry Meek; 3. Annest Jones.

BECHGYN BLWYDDYN 10
100m: 1. Tomos Saynor; 2. Caio Hywel; 3. Richard Jones.
200m: 1. Richard Jones; 2. Dewi Jones; 3. Isambard Hamilton.
300m: 1. Richard Jones; 2. Rhun Williams; 3. Dylan Thomas.
800m: 1. Richard Jones; 2. Dylan Thomas; 3. Rhys Jones.
1500m: 1. Rhys James; 2. Richard Jones; 3. Dylan Thomas.
Ras Gyfnewid: 1. Eryri; 2. Elidir; 3. Gwyrfai; 4. Eilian.
Shot: 1. William Gwynedd; 2. Siôn Jones; 3. Ifan Roberts.
Disgen: 1. Dafydd Williams; 2. Jos Davison; 3. Arwel Hughes.
Picell: 1. Jos Davison; 2. Siôn Emlyn Parry; 3. William Gwynedd.
Naid Hir: 1. Rhun Williams; 2. Tomos Saynor; 3. Dewi Jones.
Naid Driphlyg: 1. Rhun Williams; 2. Tomas Saynor; 3. Dewi Jones.
Naid Uchel: 1. Rhun Williams; 2. Rhys Jones; 3. Tomos Saynor.

# "Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"



## LLONGYFARCHIADAU ALED

Ar ddiwedd tymor llwyddiannus iawn i Glwb Rygbi Tref Caernarfon cafodd Aled Jones, sy'n hanu o bentref Bethel, ei ddethol yn chwaraewr ifanc mwyaf dawnus y Clwb Rygbi. Mae hyn yn fraint yn wir oherwydd dewiswyd Aled gan ei gyd chwaraewyr sydd yn dangos cymaint o barch sydd ganddynt tuag ato.



## EILIAN YN GORFOLEDDU

Mari Gibbard a Dylan Thomas gafodd yr fraint o godi'r Cwpan Mabolgampau eleni fel capteiniaid ar y ty buddugol: Eilian. Yn yr ornest agosaf am flynyddoedd enillodd Eilian gyda chyfanswm o 976 o farciau. Yn ail roedd Elidir (968) o flaen Eryri (967) ac yn olaf Gwyrfai (932)
Llongyfarchiadau i bawb!

## YSGOL WERDD

Ar ddydd Gwener 29ain Mehefin 2012 cafwyd cyfarfod cyntaf pwyllgor Ysgol Werdd, Ysgol Brynrefail.
Menter ryngwladol yw'r rhaglen Eco-Sgolion sy'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn materion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy. Mae'n cynnig system hynod strwythurol ar gyfer rheolaeth amgylcheddol o ysgolion.
Mae'r rhaglen yn adnodd dysgu ac mae'r meysydd pwnc yn cynnwys Ysbwriel, Lleihau Gwastraff, Cludiant, Byw'n Iach, Ynni, Dwr, Tir yr Ysgol a Dinasyddiaeth Fyd-eang.
Disgyblion sy'n cymryd y prif rannau mewn cymryd penderfyniadau a chyfranogi er mwyn lleihau effaith amgylcheddol eu hysgol. Fel hyn, mae Eco-Sgolion yn ymestyn y tu hwnt i'r dosbarth ac yn datblygu agweddau o ddinasyddiaeth gyfrifol, gartref ac yn y gymuned ehangach.
Mae Baner Werdd Ryngwladol Eco-Sgolion, a roddir i ysgolion sydd wedi llwyddo'n dda gyda'u rhaglen, yn eco-label gydnabyddedig sy'n cael ei barchu am berfformio mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Gweithgaredd tymor hir yw'r rhaglen Eco-Sgolion gyda'r wobr yn cael ei hail asesu a'u hadnewyddu bob dwy flynedd.



## 45 Mlynedd o Lywodraethu

Yn dilyn ei hymddeoliad fel Cynghorydd Gwynedd eleni, bu i gyfnod Mrs. Pat Larsen fel cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Brynrefail ddod i ben y tymor hwn ar ôl 45 mlynedd o wasanaeth ffyddlon a chydwybodol dros ben. Bu iddi gychwyn ar y gwaith yn 1967 ac mae 5 Prifathro wedi bod wrth y llyw ers hynny. Diolch o waelod calon iddi am ei chefnogaeth gadarn i'r ysgol a'i chymuned dros gymaint o flynyddoedd a dymuniadau gorau iddi yn ei hymddeoliad.



**YSGOL GYMUNED**
Cafwyd cyfarfod arbennig i ddiweddu'r tymor bnawn dydd Mercher, 18 Gorffennaf. Cyflwynwyd amryw o dystysgrifau gwahanol i'r disgyblion fel a ganlyn:
Tarian Ymroddiad i'r Ysgol – Catrin Donnelly;
Tarian Disgybl y Flwyddyn (pleidleisiwyd gan y plant) – Carwyn Owen (Cyflwynwyd y darian yma yn rhodd i'r ysgol gan y cyn-brifathro, Mr Gareth Fôn Jones)
Gwobr Goffa'r Prifardd Selwyn Griffith – Amie Lewis a Catrin Donnelly
Gwobr Mabolgampau – Catrin Donnelly
Presenoldeb Gorau – Lauren Jones
Disgybl Mwyaf cwrtais – CA1 – Alun Lamerick; CA2 – Catrin Elen Jones.
Cynnydd gorau – Mair Jones
Gorau am helpu – Amie Lewis
Ymroddiad – Efa a Mabli Baines.
Dymunwyd y gorau i Amie Lewis a Catrin Donnelly, Bl6, wrth iddynt ddechrau ar eu gyrfa yn Ysgol Brynrefail ym mis Medi.
Roedd pawb yn drist iawn o ffarwelio â Miss Bethan Pritchard sydd wedi bod yn gweithio fel Cymhorthydd yn yr ysgol am bum mlynedd. Diolchwn iddi am ei chefnogaeth a'i hymroddiad i'r ysgol, a dymunwn y gorau iddi wrth ddilyn cwrs gradd yn y Brifysgol ym mis Medi.
Dymuna'r pennaeth, Mr Llŷr Rees, ddiolch i'r plant, rheini a staff yr ysgol am y croeso a'r gefnogaeth y mae wedi ei dderbyn yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn.

**CRONFA PENSIYNWYR.** Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Mehefin oedd Carol Jones, Ysgol Penisarwaun ac enillydd mis Gorffennaf oedd Dave a Cheryl Ash. Llongyfarchiadau i chi oll!

**SEFYDLIAD PRYDEINIG Y GALON.** Dymunir diolch i Elizabeth Jones ac Ann Ifans am eu parodrwydd eto eleni i gasglu tuag at yr elusen teilwng. Casglwyd £186 a dymunir diolch i bawb a fu mor barod i gyfrannu mor hael.

**YSGOL SUL BOSRA.** Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 9 Medi, am 10.00 y bore. Croeso cynnes i aelodau newydd a mawr hyderwn y bydd Mr Evie Jones, yr Arolygwr ffyddlon, yno i edrych ar ein holau.
Dymunir diolch o galon i aelodau Ysgol Sul Seilo, Tregarth, am y croeso cynnes a'r Te Bach amheuthun wedi'r gwasanaeth yn y Gymanfa. Cawn ninnau gyfle i'ch croesawu chwithau ac Ysgol Sul Ebeneser, Caernarfon, yn 2013.

**PEN-BLWYDDI ARBENNIG.** Bu'n adeg o ddathlu mawr i deulu Tawelfa yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i ti Nia, Gors, ar achlysur dy ben-blwydd arbennig ac hefyd i Myfanwy ar ei phen-blwydd arbennig hithau ar Awst 6ed. Bu ymweliad Menna, chwaer Myfanwy, yr holl ffordd o Ganada yn anrheg amhrisiadwy ac yn ychwanegu'n fawr at y dathlu.
Dymuna Nia a Myfanwy ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion ac achosion i ddathlu dau ben-blwydd arbennig.
Dymuna Eurgain Haf – hithau wedi dathlu pen-blwydd arbennig ar Orffennaf 17 - ddiolch i'w rhieni, teulu, ffrindiau lu a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r hwyl a sbri yn y dathliadau.

**DYWEDDIAD.** Pob dymuniad da i Sioned (17 Bryn Tirion gynt) a Tirion ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob bendith i'r dyfodol gan y ddau deulu a phawb yn y pentref a chlamp o sws gan Efan Jac.

**GWELLHAD.** Dymunir gwellhad buan i bawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar – buasai tipyn o heulwen yn help i godi calon rhywun. Gobeithio y cawn ni Ha' Bach Mihangel yn fuan.

**LLONGYFARCHIADAU NAIN A TAID.** Ddiwedd mis Gorffennaf, daeth llawenydd lond y tŷ i Carolyn a Dafydd Les Roberts, Pen Dinas Mawr. Ganwyd merch fach, Efa Gwyn, i Lois a Dafydd gan wneud Carolyn a Dafydd yn nain a thaid balch am y tro cyntaf a nith fechan annwyl i Yncl Dion. Pob bendith i chwi fel teulu.

**PWYLLGOR NEUADD CYMUNED.** Tynnwyd Clwb 100 Gorffennaf a'r enillwyr oedd: Bessie Williams, Llys Myfyr a Gwen Roberts, Bron y Gaer.
Enillwyr mis Awst oedd Annie Hughes, Cae Hywel a David Philips, Tai Arthur.
Dymuna Pat Larsen ddiolch i'r Pwyllgor ac i Bwyllgor Cymuned Llanddeiniolen am eu caredigrwydd. Diolcha yn arbennig am y noson annisgwyl pan dderbyniodd gopi o gywydd gan Richard Llwyd Jones, tusw o flodau a theisen o ddiolch a chyfraniad gan y Parti Unsain Cynradd fel gwerthfawrogiad o'i gwaith diflino yn gwarchod ein cymuned. Gobeithio eich bod yn mwynhau eich ymddeoliad, Pat.
Dymuna'r Pwyllgor ddatgan eu llongyfarchiadau i Bedwyr Rees, brawd Llŷr Rees, y Pennaeth ar ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Bro Morgannwg.

**EISTEDDFOD BENTREF.** Fe gawsom ninnau eleni eto Eisteddfod lewyrchus a llwyddiannus dros ben. Bu'r cystadlu o'r meithrin i'r rhai dros 18 oed yn llawn bwrlwm ac o safon clodwiw iawn, yn arbennig felly yr Adran Cynradd a'r Uwchradd. Yn ôl y beirniaid Cerdd a Llefaru, Siân ac Emyr Gibson, dylai nifer ohonynt fynd a chystadlu mewn eisteddfodau ymhell ac agos gan fod nifer yn dangos talent o gyflwyno'n hyderus iawn. Clodfori gwaith graenus a chaboledig gafwyd gan y Beirniad Llên, Arwel Jones, hefyd ac anogai y rhai a ddaeth i'r brig, yn enwedig yn yr Adran Uwch, i gario ymlaen i gystadlu.
Llongyfarchiadau mawr i'r Prif Lenorion, sef Natasha a dderbyniodd Tarian Prif Lenor Cynradd, a Magi Tudur, Prif Lenor Uwchradd a dderbyniodd Gwpan yr Eisteddfod.
Dymunir diolch i'r beirniaid, Siân ac Emyr Gibson, Arwel Jones, Islwyn Williams a Rhian Roberts am eu geiriau caredig i bob cystadleuydd ac am eu hanogaeth iddynt gario mlaen i gefnogi'r Eisteddfod.

L.G. OWEN
PENISARWAUN
GWAITH CERRIG-TIRLUNIO
Gwaith Walio • Gwynebu
Pointio • Gwaith Blocs • Patios
Dreifs • Llwybrau • Gwaith Grafel
Llechi • Ail Wneud Gerddi • Trin Coed
Concretio • Tarmacio • BlocPavio • Dreinio
Gwaith Clirio • Ffensio • Decio A.y.b
Gwaith o safon, Prisiau Cystadleuol
Gwasanaeth Cyfeillgar - Gwbwl Yswiriedig
CYSYLLTWCH 01286 870318
NEU 07896739544
www.gwyneddstonemasonry.co.uk

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: 08444 119 003

Diolch o galon hefyd i'r Pennaeth a staff yr ysgol am eu cydweithrediad gyda'r gwaith Arlunio a Llên a chyda'r canu ac adrodd, a fu o gymorth mawr i Marina ac Ann yn ystod yr ymarferion nos Lun a nos Iau.

Braf oedd gwrando ar Dyfed Jones yn adrodd hanes ei ddyddiau yntau yn yr Eisteddfod Bentref, dyddiau a fu o gymorth iddo fagu hyder i allu annerch a chyfathrebu yn ei swydd bob dydd heddiw. Dymunir diolch i Dyfed am ei rodd hael fel Llywydd yr Eisteddfod.

Gobeithir cynnwys lluniau yn y rhifyn nesaf.

**NOSON LAWEN.** Sadwrn wedi'r Eisteddfod aeth 30 ohonom i'r Ganolfan ym Mhorthmadog fel rhan o gynulleidfa 'Noson Lawen S4C gan Gwmni Da.

Teulu Hendre Cennin, sef John Eifion a'i chwiorydd a'u plant, oedd yn cynnal y noson a bu'n noson o ryfeddu at dalentau'r teulu cerddorol hwn. Swynwyd y gynulleidfa gan yr amrywiol eitemau a chafwyd 'standing ovation' ar y diwedd, rhywbeth na chafwyd erioed o'r blaen yn y Noson Lawen. Diweddwyd y noson gyda chân Caryl Parry Jones, 'Un ŶM Ni' ac fe' hail-ganwyd gydag arddeliad a theimladau angerddol. Ein diolch i Elizabeth Jones am drefnu'r noson gan sicrhau elw da ar gyfer Eisteddfod Bentref 2013.

**CYDYMDEIMLO.** Wedi noson fythgofiadwy yn y Ganolfan ym Mhorthmadog, daeth tristwch mawr i Deulu Hendre Cennin y Sul canlynol. Dymunir datgan ein cydymdeimlad llwyraf ag Ann, John Eifion a'i chwiorydd a'r teulu oll o golli gŵr, tad a thaid annwyl – Melfyn – un a gafodd y fraint o fagu teulu talentog iawn.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Awst 15 bu farw Ceri Hughes, Llanrug (12 Bryn Eglwys gynt) ffrind a chymdoges garedig i nifer ohonom ar y stad. Dymunir anfon ein cydymdeimlad llwyraf at Gwyndaf ac Alun a'r teulu o golli mam, mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain annwyl a chymdoges dda.

**LLONGYFARCHIADAU ADDYSGOL.** Llongyfarchwn bawb ohonoch fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**CYLCH TI A FI.** Bydd y Cylch yn ailgychwyn wedi i'r ysgol agor ym Medi ar y dydd iau, o 1.30 – 3.00 y pnawn. Edrychir ymlaen at weld pawb.

Y CLOD, Y MAWL, Y PARCH A'R BRI. Ie, 'Y clod, y mawl, y parch a'r bri a fo i enwau'n Genod Ni'. Llongyfarchiadau i Lois, Anest, Enlli ac Alaw, enillwyr y gystadleuaeth i driawd neu bedwarawd gyda'r clod uchaf erioed mewn cystadleuaeth Cerdd Dant gan Menai Williams a'i chyd-feirniaid yn Eisteddfod Bro Morgannwg. Llongyfarchiadau hefyd i'r ddau bedwarawd arall a ddaeth yn gydradd ail agos iddynt, nifer o'r aelodau o'r fro hon o Rhiwlas, Deiniolen a Bethel. Da iawn wir!

**CARNIFAL 2012.** Cafwyd wythnos o amrywiol weithgareddau o Orffennaf 9-15 gyda'r tywydd yn gymharol ffafriol ac yn heulwen braf ar Sadwrn y Carnifal. Bu cystadlu brwd a bu'n dasg anodd i'r beirniaid, Mair Foulkes, Norman Rowlands a John Jones. Prif enillydd yr holl gystadlu oedd Ela. Cafwyd clo arbennig i'r wythnos gyda Chymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen gyda Susan Williams yn arwain a chyfeilio a chafwyd eitemau clodwiw gan Dafydd Roberts a Siân Wheway a phlant yr Ysgol Gymuned. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd yr wythnos mewn unrhyw fodd a diolch i'r holl noddwyr caredig – ymlaen i Garnifal 1213 rŵan.

**PLYGU'R ECO.** Plygir y rhifyn nesaf yma ym Mhenisarwaun ddydd Iau, Medi 27ain, yn Neuadd Eglwys Santes Helen. Taer erfynnir am eich help arferol.

## " Rho im' yr Hedd"

*( I'r c'neitherod am eu perfformiad graenus)*

I daid, rhoed teyrnged odiaeth, - yma prawf
mai profiad yw hiraeth.
Archif nawr, dyrchafu wnaeth
hedd galar. Buddugoliaeth!

*RLLJ*


**Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed**

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



**Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:**
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i **www.ageuk.org.uk/products**

AGE Concern    age UK

**Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.**
**Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.**
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1



GLANHAWR SIMNE
TRWSIO CORN • GOSOD CAWL
Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305
WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR GWYNFRYN LLOYD






MOT
www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
BOSCH Car Service

# CHWILOTA



## HAF GWLYB!

Do, fe gawsom haf gwlyb, a hynny ers tua diwedd Ebrill. Ond ganrif yn ôl, doedd hi fawr gwell, ac ar ddiwedd Gorffennaf 1912 roedd gohebydd Llanberis i'r Herald Cymraeg yn adrodd fod rhai cannoedd wedi ymweld â chopa'r Wyddfa yn ystod yr wythnos ddiwethaf, ond mai ychydig iawn oedd wedi bod gydol yr haf oherwydd y tywydd.

Doedd hi fawr gwell ym mis Awst 'chwaith, a'r ysgolion ar gau. Roedd dau athro adnabyddus o Ysgol Brynrefail – J. Rees Foster a Madoc Jones – wedi trefnu gwyliau pysgota, ac wedi gosod pabell ar lannau Llyn y Gader yn Rhyd-ddu. Ond oherwydd y tywydd garw bu'n rhaid iddynt anghofio'r babell a mochel mewn ffatri gan fod y gwyntoedd a'r glawogydd mor chwyrn. Roedd rhai o fechgyn Llanberis wedi mentro efo pebyll i Bwllheli hefyd, ond fu fawr o lwyddiant ar eu gwyliau hwythau 'chwaith.

Bu trip Ysgol Sul Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun yn Llanfairfechan efo trên. Cafwyd mwy o hwyl ar y trên nac ar y traeth! Roedd trip Ysgol Sul Capel Glasgoed yn gobeithio am well tywydd ar eu hymweliad hwy â Biwmares.

Ym Methel, aeth eu mabolgampau blynyddol ymlaen er gwaethaf y tywydd. Roedd Band Llanrug yno'n diddori, a chafwyd arddangosfa llysiau, blodau, ffrwythau, mêl, bara, wyau, menyn, adar a dofednod er gwaethaf y tywydd gwlyb. Uchafbwynt y mabolgampau oedd ras filltir ar gefn beic! Nid oes son o gwbl ble'n union roedd y mabolgampau na'r arddangosfa yn cael eu cynnal.

Yr un oedd yr hanes yn Ebenezer hefyd, ble cynhaliwyd bazaar i godi arian tuag at gronfa'r ysgoldy newydd.

Bu trigolion Llanrug yn fwy lwcus pan gynhaliwyd y carnifal a'r chwaraeon blynyddol ym Mryn Bras. Roedd Band Llanrug yno hefyd, a'r un math o gystadleuthau a gynhaliwyd yn eu chwaraeon ac a gafwyd ym Methel – ar wahân i un na chlywais amdani erioed, sef "Tilting the Ring on a Bicycle". Beth tybed oedd yn ei olygu?

Ym mis Medi gallai trigolion Betws Garmon edrych ymlaen am eu treialon cwn defaid, ac yr oedd cystadlu tebyg i'w gynnal ym Meddgeleret hefyd, gyda chystadleuaeth hollti llechi yn cael ei chynnal yr un pryd. Yn nhref farchnad yr ardal yng Nghaernarfon, y prif atyniad oedd Arddangosfa Cwn, Dofednod ac Adar dôf yn y Pafiliwn. Mae'n siwr fod amryw o'r fro yn cystadlu yno.

A dyna adloniant trigolion y fro dros fisoedd yr haf. Ond roedd digwyddiadau eraill hefyd, ac yr oedd twristiaeth yn bwysig bryd hynny fel heddiw. Ym mis Gorffennaf adroddwyd fod dau gant a hanner o gigyddion a'u teuluoedd wedi ymweld â Llanberis; wedi teithio yno mewn deuddeg o gerbydau o Efrog. Cawsant ginio ac adloniant yng Ngwesty Dolbadarn, cyn troi'n ôl am Swydd Efrog yr un diwrnod. Dyna daith a hanner am bryd o fwyd!

Roedd rhai o fechgyn Cwm y Glo a Llanrug yn ennill ceiniog neu ddwy oddi ar yr ymwelwyr hefyd, ond ym mis Awst y flwyddyn honno aeth eu hawch am arian dros ben llestri. Mae'n ymddangos eu bod yn casglu sypiau o rug yn ei flodau ac yn eu taflu i gerbydau'r ymwelwyr tra'n teithio heibio ar eu ffordd i Lanberis. Fel arfer roedd yr ymwelwyr yn talu arian mân am y blodau, ond nid pob un. Daeth y rheini dan lach yr hogia' ifanc, a dechreuwyd taflu cerrig a llaid at yr ymwelwyr nad oedd yn fodlon talu am y grug. Ymddangosodd rhieni y bechgyn yn y llys a'u siarsio i reoli eu plant!

Daeth un o blant Llanberis yn ôl i'w ardal enedigol, sef R. Parry, mab Robert Henry Parry, Talydon. Yn ôl adroddiad yn yr Herald, roedd ganddo "ddyfais beirianyddol", ac yr oedd ar daith drwy Brydain i'w harddangos. Yn anffodus, ni cheir unrhyw wybodaeth ynglyn â beth yn hollol oedd y ddyfais hon.

Roedd un arall o blant yr ardal, Owen Chambers Griffiths, yn gwneud enw iddo'i hun fel masnachwr ym Manceinion. Y fo oedd prif archwiliwr llechi porthladd Camlas Manceinion, ac yr oedd 8,000 o lechi, y mwyafrif ohonynt o Chwarel Dinorwig, yn cael eu hanfon drwy'r porthladd yn ddyddiol.

Ond doedd amgylchiadau byw ddim yn hawdd ganrif yn ôl, ac yr oedd nifer o bobl yr ardal yn ymfudo. T.S.Ingham (ei deulu o Lanberis) oedd un asiant lleol yn trefnu teithiau dramor. Canada oedd y wlad ddewisiedig: roedd yn hysbysebu gyda'r slogan "Cymro, Cymru, Canada, Caernarfon". Ym mis Gorffennaf roedd newydd ddychwelyd o Ganada "wedi danfon y parti mwyaf o ymfudwyr i'r wlad honno."

Mae'n amlwg hefyd nad oedd cyflwr tai yr ardal ddim yn dderbyniol, a cheir adroddiad am gynnig gan Assheton Smith o rodd o acer o dir yng Nghlwt y Bont i godi ugain o dai. Cyngor Gwledig Gwyrfai fyddai'n gyfrifol am yr adeiladu, ac ni fynnai Sgweiar y Faenol unrhyw rent am y tir. Os byddai'r Cyngor yn llwyddiannus, yna roedd Assheton Smith yn cysidro rhoi mwy o dir yn rhad ac am ddim mewn ardaloedd eraill o'r fro i godi mwy o dai. Tybed a adeiladwyd y tai, a pha rai oeddent?




*Dyma lun cynnar o Glwt y Bont. Beth oedd enwau'r bythynnod ar y chwith tybed?*

## CHWILOTA
### *Parhad*

**Rowndiau Llefrith wedi'r Ail Ryfel Byd.**

Gan Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm y Glo y cafwyd galwad ffôn yn adrodd hanes rhai o'r ffermydd lleol oedd yn arfer danfon llefrith o amgylch yr ardal yn fuan wedi'r Ail Ryfel Byd. Yn ogystal â'r Llwyncoed, roedd pump o droliau o ffermydd yn Llanrug hefyd yn cario llefrith i Lanberis, sef Plastirion, Plas Gwyn, Bryn Llan, Cilgwythwch a Chae Hoedyn. Roedd chweched, sef Plas Hafod yn cario i ardal Y Fachwen.

Credai hefyd fod ffermydd Tyddyn Charles, Llwyn Celyn, Bron Eryri a Chae'r Fran yn danfon yn Llanberis.

Trol a cheffyl oedd y drefn gan bob un ohonynt, ac yr oedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith, i gael enw'r gwerthwr llefrith ar ochr y drol. Tybed oes lluniau ar gael o rhai o'r troliau cynnar hyn?

Byddai gan bob gwerthwr llefrith ei 'rownd' arbennig ei hun o fewn pentref Llanberis, a'r dull o dynnu sylw'r cwsmeriaid oedd defnyddio pib, cloch neu gorn. Roedd Plastirion yn defnyddio corn tebyg i gorn hela; Bryn Llan yn defnyddio cloch, a Chilgwythwch yn defnyddio pib. Oes rhai o'r rhain yn parhau ym meddiant y teuluoedd?

Fel arfer, roedd gan bob gwerthwr dri mesur, sef chwart, peint a hanner peint. Mae dau o'r mesurau hyn yn dal yn y Llwyncoed hyd heddiw.

Yn ddiweddarach, fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf, daeth rhai o'r gwerthwyr i ddefnyddio cerbydau. Credir mai Dic Toriad, oedd yn byw ger y Bonc, Bryn Bras, oedd un o'r rhai cynharaf; yn defnyddio Fan Austin 7, gyda ffenestri siâp wy yn y cefn. Oes rhywrai yn cofio'r fan arbennig honno?

**Y Cyfaill Eglwysig.**

Sydyn iawn fu'r ymateb i'r cais am awdur y penillion er cof yn y rhifyn diwethaf. Cafwyd e-byst a galwadau ffôn gan Margaret Ellis, Nant Peris, Anita Butler, Llanfairfechan ac Eifion Roberts, Llanberis; pob un yn cynnig yr enw Hugh Lunt, a fu'n giwrad yn Eglwys Nant Peris ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

**Ty Gwyn, ond nid Gwaun Cwm Brwynog!**

Ken Jones o Lanberis awgrymodd mai hen adfail ar y ffordd o Lanberis i Faenllwyd ac ymlaen am Fwlch y Groes oedd Ty Gwyn, ac nad oedd, felly wedi ei leoli o fewn Gwaun Cwm Brwynog.

Anfonwch unrhyw ymholiad neu unrhyw wybodaeth am hanes lleol i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)


Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255



GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475


## BRYNREFAIL

**PROFEDIGAETH.** Ddiwedd mis Mehefin daeth y newydd am farwolaeth ddisymwth William Llywelyn Daniels, 4 Trem Eilian, yn Ysbyty Gwynedd yn 59 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**SEFYDLIAD Y MERCHED.** Roedd cyfarfod o'r gangen ar Orffennaf 19eg ar ffurf taith hanesyddol o gwmpas tref Caernarfon dan arweiniad Emrys Jones. Mwynhawyd y daith yn fawr a chafwyd pryd o fwyd i ddiweddu'r noson yn Y Bedol ym Methel.

Aeth trip blynyddol yr aelodau eleni ar Orffennaf 30ain i Nanmor i ymweld â fferm fadarch Cynan Jones. Roedd yn brofiad arbennig i weld gwahanol fathau o'r cynnyrch a chael sgwrs am ei waith gan y perchennog. Trefnwyd lluniaeth ar derfyn y noson yng Nghaffi Gwynant, Nantgwynant.

Ar Awst 15fed yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanberis dan nawdd Sefydliad y Merched Brynrefail, cynhaliwyd Sioe Ffasiwn – 'Dillad bron yn Newydd'. Cymerodd nifer o'r aelodau ran yn y modelu a gwerthwyd holl ddillad yr arddangosfa er budd elusen.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen nos Iau Medi 20fed.

**YR EGLWYS BRESBYTERAIDD**

**Y GYMDEITHAS.** Bu cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Gorffennaf 12fed. Cadeirydd y noson oedd Gwyn Hefin Jones, Rhandir. Yn dilyn gair o groeso cyflwynodd fyfyrdod byr ar y thema 'Prydferthwch a phethau cain'.Y siaradwr gwadd oedd Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Testun ei sgwrs oedd 'Beth sydd mewn enw?' Cawsom ymdriniaeth ddiddorol ar enwau lleoedd a chymeriadau gyda llawer o gyfeiriadau at fro ei febyd yn Nolwyddelan. Gwahoddodd yr aelodau ar y terfyn i gyfrannu. Cafwyd llu o atgofion personol am enwau trawiadol – diweddglo teilwng i'r noson.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Iau, Medi 13eg. Y siaradwr gwadd fydd Gwyn Hefin Jones.

**OEDFA GYMUN** Daeth cynulliad cryno i'r oedfa ar Orffennaf 29ain pryd y cafwyd gwasanaeth arbennig gyda gweinyddiad o'r Sacrament o Swper yr Arglwydd dan arweiniad y Parch Harri Owain Jones, Llanfairpwll. Anfonwyd cofion at Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, sydd yn cael gofal ar hyn o bryd yng Nghartref Gwynfa, Dinas, Llanwnda, wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri a dymunwyd yn dda i Ifanwy Jones oedd yn wynebu triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Y FUGEILIAETH** Fel hysbyswyd eisoes bu i'r Eglwys symud ymlaen yn ystod 2012 i ymateb i argymhelliad Eglwys Bresbyteraidd Cymru i bob cynulleidfa ddod dan ofal bugail. Yn dilyn cyfnod o ddeunaw mlynedd yn ddi-fugail, cyfnod hefyd pryd y bu i ni ad-leoli ein man addoli, edrychwn ymlaen am gyfnod newydd arall yn rhan o Ofalaeth Glannau'r Saint dan weinidogaeth Y Parch Marcus Wyn Robinson. Mae i'r Eglwys le cynnes yn ei galon fel un sydd a'i wreiddiau ar ddwy ochr ei deulu yn hanu o Frynrefail. Dechreuodd ei weinidogaeth gyda ni ar Orffennaf 1af.

**Y GYMANFA GYFFREDINOL.** Bu Lowri Roberts Williams ymhlith y cynrychiolwyr o Henaduriaeth Arfon yng nghyfarfodydd Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys Bresbyteraidd a gynhaliwyd eleni yn Aberystwyth, Gorffennaf 16eg – 18fed.

**OEDFAON MEDI**

2: am 5.30: Parch W R Williams, Y Felinheli

9: am 5.30: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon pryd y Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

16: am 2: Parch D John Pritchard, Llanberis

23: am 5.30: Mrs Glenys Jones, Pwllheli

30: am 5.30: Mr John H Hughes, Llanberis.

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod ar y 17eg o Orffennaf 2012 gwnaed y penderfyniadau canlynol.
Cwyno i'r Heddlu am unigolyn sy'n gor-yrru beic modur drwy'r pentref yn dilyn cwynion a dderbyniwyd amdano.
Yn dilyn trafodaeth hir ynglŷn â'r cais i godi tyrbin gwynt yn Pen y Lôn, Lôn Groes, Llanrug, penderfynwyd ei wrthwynebu ar y seiliau canlynol:
Diffyg gwybodaeth am yr effaith a fyddai'r tyrbin yn ei gael ar yr amgylchfyd yn nhermau lefel y sŵn a harddwch yr ardal.
Pryder am safon y lluniau yn y cais.
Pryder am osod tyrbin a fyddai yn cynhyrchu sŵn cyson mor agos i ysgol ac yn agos iawn i gaeau chwarae'r ysgol a'r cae chwarae aml bwrpas. Am holi pa mor agos i ysgol a mannau chwarae y gall tyrbin gael ei osod.
· Ymateb negyddol gan drigolion cyfagos.
· Effaith ar werth tai cyfagos.
· Effaith weledol y tyrbin.
Penderfynwyd peidio gwrthwynebu'r Cais i godi 10 tŷ, cylchfan, ffordd newydd a gwaith is-adeiladedd ar Gae'r Eglwys, Ffordd Llanberis, Llanrug, ond i ofyn i Gyngor Gwynedd ystyried y posibilrwydd o osod ffens ar hyd blaen yr ysgol.
Cysylltu gyda'r giang cymunedol ynglŷn â'r golwg ar y llwybr rhwng Glanffynnon a Ffordd Llanberis ar safle'r hen Garej Hafod.
Gwneud trefniadau i glirio'r gordyfiant ar lwybr 22 sydd yn rhedeg o Gapel Bryngwyn i Ffordd Llanberis.
Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
· Cais am estyniad ochr – Pant Bryn Gwyn, Ceunant
· Estyniad a newidiadau i edrychiadau'r tŷ - Penlon Llanrug
· Estyniadau i'r tŷ – Tyddyn Cae, Llanrug
Pasio'r cwynion canlynol i Gyngor Gwynedd:
· Gordyfiant dros y ffordd i dafarn Penybont ar Ffordd yr Orsaf.
· Gordyfiant ar y ffordd rhwng Hermon a Ffordd Llanberis
· Bod y gwrych rhwng Nant y Glyn a Ffordd Llanberis yn dal heb ei thorri

---

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Llanddeiniolen

**Mudiadau gwirfoddol** – gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol erbyn diwedd Medi gan gynnwys mantolen ariannol y mudiad – John B. Jones, Clerc, Ceris, Deiniolen. LL55 3LU


**Crynodeb o gyfarfod Gorffennaf**

**Gweddi.** Cyflwynwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.
**Materion o'r cofnodion.**
**Blwch postio, Tan y Gaer.** Cyfeiriodd Phyllis Ellis at ddadl y Post bod y perchennog tir wedi gwrthod caniatau ei ail-osod. Yn ochr ffordd Cyngor Gwynedd oedd y gwreiddiol – llythyr eto i'r Swyddfa yn Llandygai. Derbyniwyd copïau o ohebiaethau Dafydd Guto Ifan ac Alun Ffred Jones AC
**Llochesi Bws.** Dywedodd Phyllis Ellis nad oes sicrwydd y bydd Cyngor Gwynedd yn eu hailosod o fewn amser rhesymol neu o gwbl. Awgrymodd ofyn i Mri G.L. Jones am bris llochesi newydd yn ogystal â'r pris atgyweirio sydd angen ei rannu ar gyfer y gwahanol safleoedd.
**Fforwm Padarn.** Manylodd Hefin Williams ar yr atodiad i gofnod y 12ed o Fehefin. Derbyniwyd hefyd ateb Alun Ffred Jones AC ei fod mewn cysylltiad â Chyngor Cefn Gwlad, Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru ynglŷn â'r sefyllfa. Dywedodd bod Dŵr Cymru ar hyn o bryd yn ceisio tynnu'r dŵr wyneb allan o'r system garthffos fel bod llai o or-lifiant i'r llyn. Ychwanegodd bod llifiant i'r llyn pan na fo glaw.
**Priffyrdd Rhiwlas.** Ateb Gwynedd (o'r diwedd) bod glanhau gwliau ar eu rhaglen waith. Mae'r Uned Drafnidiaeth wedi dechrau'r broses o ganiatau llinellau melyn ar orchymyn cyfreithiol, ynghyd â lleoliadau eraill. Nid oes amserlen bendant ond gobeithir cynnwys y gwaith o fewn y misoedd nesaf.
**Gohebiaethau a materion eraill.**
**Diffyg signal ffôn.** Cais oddi wrth Alun Ffred Jones AC am restr o leoliadau. Penderfynwyd enwi Pass Llanberis, Llanrug a Bontnewydd.
**Llwybr beicio Nant y Garth.** Cyfeiriodd Phyllis Ellis at y cais blaenorol am lwybr diogel ar hyd Nant y Garth, ychwanegodd Carolyn Roberts bod y sefyllfa yno yn beryglus iawn i feicwyr a cherddwyr – llythyr eto i Wynedd.
**Gorsaf Drydan Quarry Batery Co.**
Dywedodd Hefin Williams y bydd y drafnidiaeth gludo fwyaf i Glyn Rhonwy o gyfeiriad Waunfawr ond bydd y gwaith hefyd yn effeithio ar drafnidiaeth ar hyd ffordd Llanberis/Penllyn.
Maent yn addo na fydd y gwaith yn llygru Llyn Padarn ond nid oes coel ar hynny o gofio addewidion Dŵr Cymru. Cyfeiriodd Phyllis Ellis at eu haddewid i gyflogi gweithwyr lleol – gobeithio na fydd hynny yn cynnwys rhywun sydd newydd brynu tŷ haf.
Cyfeiriwyd at yr ohebiaeth flaenorol gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â chroesffordd Trem Eilian a phenderfynwyd gofyn am reolaeth "pelican" yno a chylchfan ger Racca yn barod erbyn trafnidiaeth ychwanegol Glyn Rhonwy.
**Cynllunio.**
Gwynfryn, Carreg y Gath, Rhiwlas. Dywedodd Hefin Williams a Rhian Evans bod y datblygiad presennol yn amharu ar lwybr cyhoeddus ac ar fynediad y cyhoedd at y ffynnon – llythyr i'r Adrannau Cynllunio a Llwybrau Gwynedd
Ceisiadau a dderbyniwyd:
Neuadd Goffa, Bethel – estyniad.
Cae Canol Barn, Fachwen – estyniad cefn.
Lôn Las, Llanrug – estyniadau, newidiadau a modurdy newydd.
1. Maes Gwylfa, Clwt y Bont – dymchwel estyniad a chodi un newydd.
Y Stablau, Llanrug - codi milodfa.
Sŵn y Llyn, Fachwen – estyniad a newidiadau.
Ceir Cymru, Bethel – uned glanhau ceir.
Cwm Malwen, Penisa'rwaun – adeiladu modurdy.
**Llwybrau.** Atebion Gwynedd:
Llwybr 93 Rhos Wian – danfonwyd y cais am arwyddion "Dim baw cŵn" ymlaen at Swyddog Gorfodaeth Arfon i ymateb yn uniongyrchol.
Llwybr 41 Garnedd i Tŷ'n Clwt – gwneir archwiliad yn fuan ond nid oes addewid am welliannau gan bod y llwybr yng nghategori defnydd isel.


**FFRAMIA**
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

**Am gymorth:**
• i gychwyn prosiect
• i gael hyfforddiant
• i geisio am grant
• i redeg mudiad
• i wirfoddoli
MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups
**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

## Croeso i blant Chernobyl.




Yn ystod mis Awst daeth pump o blant o Belarus am wyliau i'r Waunfawr. Roedd y ddwy eneth a thri bachgen (naw a deg oed), i gyd yn dod o bentref bychan Lipen, tua deng milltir o dref Ossipovichi yng ngwlad Belarus. Mae'r plant ac un o'u hathrawon yma ar wyliau i fwynhau awyr a dwr iach Eryri, gan obeithio y bydd yn hwb iddynt tuag at well iechyd. Mae eu pentref a'r ardal o amgylch wedi dioddef yn enbyd ers trychineb Chernobyl chwe blynedd ar hugain yn ôl, ac ymbelydredd yn parhau i gael effaith ar yr amgylchedd a bywyd y trigolion.

Cefndir amaethyddol sydd i'r plant, ac y mae eu teuluoedd wedi hen arfer â bywyd caled, yn enwedig gaeafau eithafol o oer. Y llynedd, er enghraifft, roedd yr ardal dan drwch o eira am wythnosau, a'r tymheredd yn aros ar –30C. Roedd y plant yn helpu eu rhieni i dorri rhew er mwyn cael dwr o'r ffynhonnau!

Mor wahanol fydd eu hymweliad â'r ardal hon. Trefnwyd y gwyliau gan Terry McDaid o'r Waunfawr, sydd wedi bod wrth y gwaith ers blynyddoedd lawer, ac yn rhan o grwp Chernobyl Children Lifeline Caernarfon.

Yn y llun gwelir y plant a'u hathrawes yn cyrraedd Maes Awyr Manceinion.

## CAMP LAWN DYLAN IORWERTH gynt o'r Waunfawr

Rwy'n siŵr fy mod yn datgan llawenydd holl drigolion Waunfawr a'r fro yn llwyddiant Dylan Iorwerth yn fardd cadeiriol Eisteddfod Bro Morgannwg am ei gerddi ar y testun 'Llanw', er cof am ei dad.

Wrth reswm, drwy y llwyddiant hwn mae Dylan wedi cyflawni'r gamp lawn, gan iddo yn ogystal fod yn Fardd y Goron yn 2000 ac yn enillydd y Fedal Rhyddiaith saith mlynedd yn ôl, ac estynnir ein llongyfarchion am hynny yn ogystal.

Bu'r teulu yn byw yn y Waunfawr am flynyddoedd wedi symud yma o Ddolgellau, pan apwyntiwyd tad Dylan, T.E. Jones, yn un o brif swyddogion Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd.

Gwn y byddai fy niweddar dad-yng-nghyfraith, Tom Williams, Garreg Fawr gynt, yn eithriadol o falch o lwyddiant Dylan, ac rwy'n ymfalchio ym mharodrwydd Dylan ar sawl achlysur i gydnabod dylanwad Tom Williams arno yn sgil ei ymweliadau ac aelwyd y Garreg Fawr pan yn ifanc. Yn wir, pan fu i'r wasg gyhoeddi, pan enillodd y Goron yn 2000, fod Dylan yn dymuno cydnabod ei ddyled i'r Tom Williams arall, sef Syr T.H. Parry-Williams ac nid fy nhad-yng-nghyfraith, buan iawn y gwnaeth Dylan ddatganiad mai Tom Williams, y Garreg Fawr, oedd y gŵr i dderbyn ei sylw ef, er cymaint ei edmygedd o'r gwron o Rhyd-ddu.

Y cof cynnar a erys gyda mi o Dylan Iorwerth ydi pan yn fachgen ysgol yn ddi-feth ar foreau Sadwrn efo'i fag dros ei ysgwydd yn ffawd-heglu am Gaernarfon i chwarae pêl-droed i rhyw dîm lleol.

Llongyfarchion ardal gyfan sydd yn ymfalchio yn ei lwyddiant ac yn ymffrostio yn ei gysylltiadau cynnar â phentref y Waunfawr, gan obeithio o leiaf fod y blynyddoedd cynnar hynny wedi cyfrannu rhywfaint o leiaf i'w ddawn ddiamheuol fel bardd, llenor a newyddiadurwr.

*Rol Williams.*


Gyda **3**
Blwyddyn o yswiriant
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

**Cofiwch chi y tanwydd!**
- Rwan ar gael i ddreifwyr **dros 21 oed!**




PEUGEOT ***208*** NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd!

**Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

PEUGEOT

**MOTION & EMOTION**

**ELIM PEUGEOT**

**Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251**

**www.elimpeugeot.co.uk**

Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk

Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad $CO_2$ (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a $CO_2$ 87 - 135

**YMDDEOLIAD.** Dymunwn ymddeoliad hapus i Dr Huw Roberts a fu'n feddyg teulu yn Waunfawr a Llanrug ers dros dri deg o flynyddoedd. Diolch iddo am ei ofal arbennig. Hefyd croeso i Dr Gwilym Siôn Pritchard, yn enedigol o Benygroes, a fydd yn olynydd teilwng iawn i Dr Roberts.

**CLWB 300.** Enillwyr mis Mehefin oedd: £30: Edgar Owen, Glyn Awel; £20: Rhian Griffith, 6 Tŷ Hen; £10: Morus Elfryn, Coed Gwydryn.

**PRIODASAU.** Dymuniadau gorau i Deian Elfryn, Coed Gwydryn a Gwenno ar eu priodas a phob hapusrwydd iddynt yn eu cartref ym Methel.

Yn Eglwys y Waun, priodwyd Nia Griffith, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd a Darren. Byddant yn ymgartrefu yn Llangefni. Dymuniadau gorau ichi eich dau.

Dymuniadau gorau hefyd i Manon a Robin Williams ar eu Priodas hwythau yn Eglwys y Waun. Dymunwn bob hapusrwydd ichi yn eich cartref yn Stad Ael-y-Bryn.

Yn ffodus iawn yr haf yma, cafodd y ddwy briodas yn Eglwys y Waun ddiwrnod heulog braf.

**NEWID SWYDD.** Dymuniadau da a Llongyfarchiadau i Iwan Davies, Bryn Melyn, ar ei benodiad yn Brifathro yn Ysgol Rhiwlas. Bydd yn cychwyn ar ei swydd ar Fedi cyntaf.

Dymunwn yn dda i Angharad Owen, Stad Tŷ Hen yn ei swydd newydd yn nyrs yn Ysbyty Guy's yn Llundain.

Dymuniadau gorau hefyd i Elgan Rhys, Eryri Wen, sydd wedi derbyn swydd yn Swyddfa'r Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno. Caiff gwmni Jamie Anderson sydd yno ar ei ail flwyddyn o waith.

**DATHLU PEN-BLWYDD.** Yn ystod y mis bu Mrs Betty Hughes, Collfryn, a Mrs Evans, Lleifior, yn dathlu eu pen-blwydd yn 93 mlwydd oed. Cafodd Mrs Alys Hughes, Stad Bryn Golau ddiwrnod da gyda'i theulu yn dathlu cyrraedd ei 90 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r tair ohonoch.

Dathlu cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed y bu Elgan Rhys, Eryri Wen. Llongyfarchiadau iti a phob dymuniad da i'r dyfodol. Cawsom gip bach ohonot ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn aelod o fand Deiniolen. Da iawn chdi.

Dymuniadau gorau hefyd i Ffion Williams, Stad Tŷ Hen a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 21 mlwydd oed. Pob hwyl i ti i'r dyfodol, Ffion.

**PEN-BLWYDD PRIODAS.** Llongyfarchiadau i Raymond a Pat Parry, Ffridd Felan, a fu'n dathlu eu priodas aur yn ystod mis Awst. Da deall fod Pat yn gwella wedi ei thriniaeth am glun newydd yn Ysbyty Gwynedd.

**BABANOD NEWYDD.** Merch fach, Cassie, a anwyd i Cari Ann a Malcolm, Stad Bro Waun, chwaer i Cadi a Cari ac wyres i Yvonne Rowlands a gor-wyres i Gwendoline Rowlands, Stad Bryn Golau.

Ganwyd merch fach, Lois Eluned, i Elin a Siôn Emyr, Dôl Gwyrfai, Stad Bod Hyfryd.

Daeth Mr a Mrs Henderson, Bryn Gwynedd ,yn daid a nain i Ela Bryn, merch fach i Heledd a David, eu mab.

Mab bychan, Efan, a anwyd i Ann a Gethin, Llain Alaw.

Llongyfarchiadau mawr i'r teuluoedd a chroeso i'r tair merch a'r bachgen bach ddaw â hapusrwydd mawr iddynt.

**LLWYDDIANNAU YSGOL A CHOLEG.** Llongyfarchiadau mawr i'n pobl ifanc ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau pwysig y buont yn eu sefyll yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf. Dymunwn y gorau ichi wrth ichi gamu i'r gris nesaf yn eich gyrfa, yn yr ysgol, goleg neu swydd.

Dymuna teulu Helen Mai, Teras Eilian ei llongyfarch ar ennill gradd cwrs Ffotograffiaeth yn y coleg, hefyd longyfarchiadau i Nia Jones, Dwyfor ar ennill gradd nyrsio gyda'r henoed.

Dymuna Richard ac Annwen, Charge, Llifon, taid a nain Serenna, 9 Bryn Golau, ei llongyfarch ar ennill Lefel 2 yn ei chwrs dysgu nofio. Da iawn chdi a dalier ati.

**CYFARFOD FFARWELIO.** Gwerthfawrogodd rhieni a theuluoedd disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol y cyfarfod ffarwelio a drefnwyd iddynt yn y Ganolfan yn fawr iawn. Dymunant ddiolch i Mrs Williams, y brifathrawes, a'r staff am ei drefnu.

Dymunir ymddeoliad hapus iawn i Mr Gareth Williams, a diolch iddo am ei ymroddiad i'r disgyblion ac i'r ysgol dros y blynyddoedd.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion Blwyddyn 6, fydd yn awr yn cychwyn ar eu gyrfa yn yr Ysgol Uwchradd. Dymunwn yn dda hefyd i'r rhai bach fydd yn cychwyn eu gyrfa ysgol yn y Dosbarth Meithrin.

**GWELLHAD BUAN.** Anfonwn ein cofion at Mr Ken Latham, Haul a Gwynt, a Mr Trelfyn Thomas, Treforfan, gan obeithio eu bod yn gwella wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Mrs Luned Coles, Bro Waun. Gobeithiwn eich bod yn wella.

Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs B. Coles, Stad Pant-y-Waun, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Fel yr oedd Mrs Jane Roberts, Stad Bro Waun, yn gwella ar ôl torri ei braich fe ddisgynnodd yr eildro a thorri ei dau arddwrn. Anfonwn ein cofion cynnes atoch a'n dymuniadau gorau am wellhad buan.

Anfonwn ein cofion cynnes gan ddymuno gwellhad i Dr Williams, Tros-y-Gors, wedi iddo dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen.


Dymunwn wellhad buan i Haf Owen, Bryn Tirion, Teras Glyn Afon wedi iddi dorri ei choes.

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs Kitty Roberts a Mrs Gweneirys Jones, y ddwy yn byw yng Nghaernarfon ac heb fod yn dda yn ddiweddar.

**DIOLCH.** Fe hoffwn i, Jane Ellen Roberts, Stad Bro Waun, ddiolch yn fawr iawn am y caredigrwydd mawr a dderbyniais tra bûm am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd a Bryn Beryl. Diolch am yr holl gardiau ac anrhegion. Diolch yn fawr iawn i bawb. Jane.

YSWIRIANT FUW
Hoffech chi hybu:
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig
Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes
Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned
Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Blodau Racca
(Alwyn a Sarah Jones)
Ffôn: 870605
• Basgedi Planhigion
• Planhigion Gardd
• Basgedi Crog
• Hefyd, Compost ar werth
RHODD O'R GALON YW BLODAU



## *Parhad* WAUNFAWR...*eto!*

**CYDYMDEIMLWN** â Lynn a theulu Plas Bodhyfryd yn eu profedigaeth o golli mam a nain a oedd yn annwyl iawn iddynt.

Yn dawel yn yr ysbyty bu farw Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Maureen, gydag Iris ei ferch a'r teulu ac â'r wyrion a'r wyresau yn eu galar a'u hiraeth.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Llifon, Teras Glyn Afon, yn eu profedigaeth o golli modryb i Richard yn ddiweddar.

**MERCHED Y WAWR.** Mae'r haf yn prysur ddirwyn i ben ac mae'n amser edrych ymlaen at dymor newydd o nosweithiau difyr gydag aelodau o'r gangen.

Byddwn yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30pm ar y pedwerydd nos Iau o'r mis i wrando ar siaradwyr diddorol ac weithiau i gymryd rhan yn y gweithgareddau ein hunain. Rhan bwysig o'r nosweithiau fydd y baned a'r sgwrsio anffurfiol fydd yn digwydd ar ddiwedd pob cyfarfod.

Felly, edrychwn ymlaen i weld hen ffrindiau, i gael clywed eich hynt a'ch helynt dros yr haf, ac yn enwedig, i groesawu aelodau newydd, oherwydd mae'r cyfarfodydd misol yma yn ffordd hapus o ddŵad i adnabod rhai o'ch cyd-bentrefwyr.

Yn y cyfarfod cyntaf, 27 Medi, bydd Rhiannon Parry, golygydd Y Wawr, yn sgwrsio hefo ni. Mae'r rhai ohonoch sy'n ei hadnabod yn gwybod am ei hegni a'i dawn dweud dihafal. Byddwn yn sicr o noson hwyliog.

## CEUNANT

**LLONGYFARCHIADAU I DION HAMER** (Clwt y Bont) am gael Dosbarth 1af mewn Celfyddyd Gain yn ddiweddar yn ogystal â llwyddo i ennill Ysgoloriaeth i ddilyn cwrs Meistr ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam ym mis Medi.

Pob dymuniad da i ti oddi wrth Dad, Mam, Gemma, Cynyr, Heledd, Lynwen, Cara, Guto a Catrin.


# Cyfarfod Blynyddol yr Eco

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn y Sefydliad Coffa Llanrug. Siomedig iawn eto oedd y nifer oedd yn bresennol, dim ond 6, gyda 4 ymddiheuriad ond eto cafwyd sgwrs a thrafodaeth fuddiol.

- ail-etholwyd yr holl swyddogion;
- derbyniwyd mantolen am y flwyddyn 2011/2012 (gweler copi yn y rhifyn hwn);
- trafodwyd dulliau o gynyddu'r gwerthiant, yn enwedig yn y strydoedd a'r ardaloedd lle nad oes dosbarthwyr gan yr Eco;
- cafwyd cais ar i luniau gael eu hanfon yn electronaidd fel atodiad maint llawn i ecorwyddfa@gmail.com. Ar hyn o bryd mae rhai lluniau yn cael eu hanfon ar fformat sydd yn anaddas i'w defnyddio yn yr Eco.

**Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2012**

| | | |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Gwerthiant | | 7262.78 |
| Hysbysebion | | 9703.10 |
| Dosbarthu taflenni | | 200.00 |
| Rhoddion | | 1495.00 |
| Grantiau | | |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 1359.00 | |
| Cynghorau Cymuned | | |
| Llanberis | 500.00 | |
| Llanddeiniolen | 300.00 | |
| Llanrug | 725.00 | |
| Waunfawr | 150.00 | 3034.00 |
| Cystadleuaeth Tlws yr Eco | | 63.00 |
| Llôg Banc | | 8.41 |
| | | 21766.29 |
| **Gwariant** | | |
| Argraffu | | 13382.00 |
| Dylunio | | 1560.00 |
| Teipio | | 2800.00 |
| Post | | 667.52 |
| Papur, amlenni ayyb | | 200.98 |
| | | 18610.50 |
| "Elw" am y flwyddyn | | 3155.79 |




GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
OLEW • NWY NATURIOL • LPG
Tel. (01286) 872328 • Mobile- 07798 746718

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
• Pob math o ddodrefn tŷ
• Cegin, 'stafell fyw, llofft
• Prisiau cystadleuol
• Carpedi, Llenni a Lloriau Pren


SWIGOD A SEBON
SYCHLANHAU
Altro • Ailwnïo
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088


Problem gyda'ch cyfrifiadur?
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368
Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!



# Ar ben arall i'r lein

Sut aeth y gwyliau tybed? Digon gwlyb yn y rhan yma o'r byd, ond er y glaw rydym yn ddigon ffodus o'i gymharu â llawer rhan o'r wlad ble mae cartrefi ac eiddo arall wedi ei ddifrodi'n ddifrifol gan lifogydd annhymhorol. Mae rhai sydd yn gorfod cymryd eu gwyliau yn ystod Gorffennaf ac Awst ac y gobeithio osgoi y tamprwydd yma wedi ffoi am wledydd môr y canoldir, ond yn amlwg doedd dim modd osgoi effaith y tywydd gan fod yr hin yno yn grasboeth gyda thymheredd cyn uched â 38°C. Gyda tymheredd o'r fath mae'n well gennyf lynu at y glaw. Ond y tebygrwydd yw y bydd rhaid mynd am rhyw ychydig o haul at ddiwedd Medi dechrau Hydref, ond mi fydd yn gryn mwy dioddefol yr amser yma. Gyda'r holl law a hefyd y tri llif Awst traddodiadol buasai rhywun yn disgwyl i'r pysgota fod yn ardderchog. Wel, ar y Llyfni mae wedi bod yn dda dros ben gyda'r niferoedd o sewin ym mhyllau gwaelod yr afon heb fod eu tebyg ers tua deng mlynedd. Mae cryn 'sgota wedi bod ar y rhan yma, gyda nifer o bysgod braf yn dod i'r rhwyd. Clywais am un am 8 bwys ond ni chefais enw'r sgotwr. Bu Carwyn Owen, Talysarn, mor garedig ac e-bostio llun un braf am 5 pwys ddaeth i'w bluen un noson dywyll. Mae cofnodion yn y llyfr mawr yn Crawia yn datgelu nad yw yn anghyffredin i dros ddwsin o sewin gael eu dal ar un sesiwn 'sgota ar fachlud haul. Ond cyn i rhai dechrau meddwl fod gor-bwysau ar yr helfa, mae rhain yn cael eu dychwelyd i'r afon heb niwed. Wrth gwrs, does dim o'i le mewn cadw rhyw un neu ddau at frecwast ar ôl cyrraedd adref. Dim byd mwy blasus.

Mae llynnoedd Cwellyn a Nantlle hefyd yn pysgota yn eithriadol a safon y brithyll yn arbennig. Fel y disgwyl gyda'r stocio rheolaidd ,mae Dywarchen yn cael cryn sylw. Rwyf wedi cael nifer fy hun yna at y 2 bwys 'ma. Mae rhain yn arbennig o flasus wedi eu mygu, ac mae yma fygwr sy'n troi brithyll yr enfys yn bryd arbennig. Os am flasu y wledd yma heb y drafferth o'i wneud gartref, yna Cwellyn Arms, Rhyd Ddu, yw'r lle i fynd. Efallai bod lle i hybu sesiwn o ddal brithyll yr Enfys ac wedyn ei fygu eich hun, a'i fwyta wedyn, wrth gwrs. Cyrsiau rhesymol drwy fwcio yn unig!!!

Ar Gwyrfai mae symudiad i wella'r bysgodfa gyda gwaith ar ddechrau i raddio'r afon ym Metws Garmon fel a oedd yn wreiddiol – cyn adeiladu'r gwaith tynnu dŵr flynyddoedd maith yn ôl. Rhan bwysig arall o'r gwaith fydd ail adeiladu'r llwybr pysgod sydd ar argae Llyn Cwellyn, bydd hyn yn rhoi llwybr di-rwystr (gobeithio) er mwyn i'r eog a sewin unwaith eto boblogi eu cynefinoedd at Lyn y Gadair ac Afon Treweunydd. Be sydd tu ôl i'r prysurdeb yma – wel mae'r Gwyrfai wedi ei dynodi dan Gynllun Cynefinoedd Arbennig yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r dynodiad yma yn cael llawer mwy o sylw na'r Safleoedd Gwyddonol Arbennig sydd wedi bodoli ers degawdau ym Mhrydain, dyma'r dynodiad sydd wedi ei roi ar Lyn Padarn. A cysidrwch y llanastr sydd wedi digwydd yno.

Felly, wrth symud ymlaen at gau rhaid adrodd ychydig ar bysgota'r Seiont a Phadarn, be ydi'r sefyllfa eleni. Wel, hyd yn hyn does ond un gair sef Trychinebus i ddisgrifio'r sefyllfa. Hyd at heddiw, sef 21 Awst, does dim un eog wedi ei ddal, rhyw ddwsin a hanner o sewin sydd wedi gweld golau dydd a'r rheini i gyd o gyffiniau Ysbyty Eryri, sef Caeau 'Rafon, Caernarfon. Rwyf wedi clywed si fod rhyw ychydig o frithyll wedi dod o Lyn Padarn ond fod rhain yn fwy na'r arferol, arwydd drwg am stoc yn lleihau.

Mae pawb yn deall beth yw'r broblem ond mae gennyf ofn fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn awr yn troi ei gynnau ar y Gymdeithas drwy gysidro fod y clwb yn rhannol gyfrifol am y broblem o'r torgoch yn marw allan. 'Gor-bysgota efallai yw rhan o'r broblem', medda nhw ac felly yn dilyn mae'n weddol sicr y bydd y corff yma yn cysidro dod â rheol i wahardd 'sgota am dorgoch. Bydd hyn felly yn naturiol yn dod â phob math o bysgota i ben ar y llyn, oherwydd fod pysgota am frithyll yn golygu defnyddio'r un dull yn union a cheisio am dorgoch. Cysidro pysgota pluen yn unig, wel 'rwyf wedi dal torgoch hefyd efo'r dull yma. Pwy sy'n cofio cael helfa dda yng ngheg Afon y Bala gyda phluen? Felly mae'n debyg fod sgota ar ei ffordd allan yn gyfan gwbwl ar y Llyn.

Bydd rhai yn dweud, mae'n siŵr, fy mod yn edrych o'r ochr dywyll ar bethau, ond y gwirionedd yw mai bod yn realistig ydw i. Rwyf i ac aelodau eraill o'r Gymdeithas wedi bod yn delio â'r broblem yma ers dros ugain mlynedd. Wedi goresgyn ail drefnu llywodraethol fel Awdurdod Afonydd Cenedlaethol, wedyn Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd yn awr ar ei ffordd allan, i'w ddilyn gan Fwrdd Adnoddau Naturiol Cymru, ac rydym yn dal i ddioddef.

Rhaid peidio bod yn or-feirniadol, oherwydd o leiaf mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gwneud archwiliad manwl o'r sefyllfa gyda'r canlyniad mai carthffos yw gwreiddyn ein holl broblemau. Mae hyn yn rhygnu eto ers 2009 ac, o'r diwedd, mae Dŵr Cymru ar fin adrodd yr opsiwn maent yn ei ffafrio i ddod â'r broblem i ben. Yng ngolwg pawb, yr unig ateb yw pibellu'r carthion i waith trin Treborth, buasai hyn yn achosi tipyn o anhawster am ychydig i drigolion Llanberis, tra fod y gwaith yn mynd ymlaen, ond mi fydd enillion di ben draw wedyn i'r pentref a'r ardal yn gyffredinol.

Yn dilyn cryn drafodaeth mae gennyf amheuaeth gref mai dim dyma fydd dewis y cwmni dŵr. Y sibrydion yw y bydd y carthion yn cael eu pibellu o Lanberis cyn belled ac unai Cwm y Glo neu Llanrug, ac yna ei arllwys i'r Seiont. Buasai hyn yn gwella Padarn ond yn difetha popeth arall. Gobeithio'n wir fod dim gwirionedd yn hyn i gyd – ond fodd bynnag cawn wybod ar 19 Hydref pan fydd Fforwm Padarn yn cyfarfod ym Mangor i dderbyn y penderfyniadau.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn disgwyl i Antur Eryri gysylltu gyda gwybodaeth am eu contract i ymholi a chodi ymwybyddiaeth ar safon y llyn. Y clwb, gyda Chyngor Gwynedd, yw perchenogion hawliau'r Llyn bron i gyd, a hyd yn hyn does neb wedi cysylltu. Ond tydi hyn yn synnu dim arnom fel clwb, gan mwyaf tebyg bydd ei ffocws yn unig ar ganŵio a hwylio.

HWYL FFLAG am y tro

Huw Price Hughes.




## Gwyniedyn neu Siwin

[Salmotrutta]

I'r Nant daw 'Pennant' y pysg, - i'w neithior
yn teithio o derfysg
y môr bob Medi i'n mysg
a nawdd yr hil yn addysg.

Troed nodyn – Pennant y pysg – Thomas Pennant y teithiwr arloesol fu yn y fro ac a groniclodd yn 'Teithiau yng Nghymru' am Marged Uch Ifan.

## Fy ngenwair bysgota

(Hardy 'The Smuggler' 9'5")

Ffibrau o 'graphite' ei ffabrig, - a dyrr
yn wyth darn graddedig,
yn ei hiws mae na fiwsig
a ddaw o dro'r brwydro i'r brig.

## Torgoch

(Salvelinus alpinus perisii)

Yr relic o lynnau'r rhewlif, - hanes
'reonau aneirif;
nawr ei arch yw yr archif
a phob geudy'n llygru'r llif.

Troed nodyn. Lluniais yr englyn wedi darllen 'Pen arall y lein' HP Hughes am ddyfodol tywyll Llyn Padarn sy' ynghlwm wrth hanes y torgoch!

*Norman Closs*

# DECHRAU ADDAWOL

Fe ddaeth dechrau tymor pel-droed arall, ac mae arwyddion calonogol i'n timau lleol dros y gemau cyntaf beth bynnag.
Llanberis sy'n denu'r prif sylw. Wedi cael dyrchafiad eleni caed dwy 'scalp' safonol iawn i ddechrau'r tymor. Curo Glantraeth gartref ac yna dipyn o gymeriad i guro Treffynnon i ffwrdd 2-1 ar ôl bod gôl i lawr. A'i dyma'r tymor ble mae dangos hyder flaenorol mewn rhoddi cyfle i'r ieuenctid yn dwyn ffrwyth. Gobeithio. Gyda'r bytholwyrdd M.LL. Williams yn ol yn y rhengoedd pwy a wyr.
Nid yw Llanrug wedi tanio eto ond mae digon o gymeriad a threfniadaeth yng ngharfan Eithin Duon i ddal eu tir yn yr adran. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gemau darbi Dyffryn Peris.
Croesawn Waunfawr i Gynghrair Gwynedd wedi eu dyrchafiad. Eto digon o gymeriad a dechrau gyda dwy fuddugoliaeth.Dylsent hwythau gadarnhau eu statws yn yr adran yma eleni. Cysondeb fydd yr arf fwyaf.
Bethel sydd wedi denu'r prif sylw. Tymor drychinebus y llynedd a chanmoliaeth i'r criw bach a gadwodd y clwb mewn bodolaeth. Denwyd nifer o'r cyn-chwaraewyr yn ôl, sy'n gredid i Iolo a'r pwyllgor. Maent yn sicr yn fwy profiadol a chorfforol eleni. Dechreuwyd gyda buddugoliaeth gynghreiriol draw yng Nghaergybi yna ennill 6-2 draw yn Llanfyllin yng Nghwpan Cymru.Braf gweld gwên yn ôl ar gae Coed Bolyn.
Bydd Llanbabo ac Ail Dim Llanrug yn edrych am fwy o gysondeb yng Nghyngrair Arfon. Yn achos Llanbabo cael gemau rheolaidd o Sadwrn i Sadwrn. Yn barod mae arwyddion o rai o'r timau 'llai' yn dioddef gohiriadau gemau oherwydd prinder dyfarnwyr. Yr un yw'r apêl flynyddol am i fwy o gyn-chwaraewyr wisgo'r dillad du.
Digon i gnoi cil arno yn lleol eleni felly. Ac mae hi'n gyfnod dechrau taith Cymru i geisio cyrraedd Brasil yng Nghwpan y Byd. Ai Byd y Bale fydd hi tybed?

# A FYDD GWADDOL?

O roddi i un ochor y dadleuon politicaidd, doedd dim dwywaith fod perfformiadau'r Gemau Olympaidd yn anhygoel. Braf oedd gweld y Cymry yn llwyddianus yn cipio'r medalau o bob lliw. Daethom yn gefnogwyr Tai-Kwando, bocsio, rhwyfo ac yn sicr rasio'r beiciau dros nos. Yr oeddwn wedi fy hoelio â pherfformiadau'r Velodrome. Am awyrgylch. Ac wrth gwrs yn nodi cyfraniad anhygoel David Brailsford – un o'n hogia ni – fel Cyfarwyddwr y gamp. Dyma'r bachgen fydda'n seiclo acw ddwy waith yr wythnos i'r clwb ieuenctid. Yr un gafodd anaf drwg yn chwarae pêl-droed. Ond nid rhoi ffidil yn y to, neu suro. Anelu am y brig ac ennill ei le fel pencampwr rheolwyr Prydain. Gofynnir am ei wasanaeth fel darlithydd gan arweinwyr sawl camp erbyn hyn. Mae gan yr unigolyn yma y 'rhywbeth' sy'n denu llwyddiant a pharch. Mae ganddo 'weledigaeth'. " Beth am fod yn reolwr pêl-droed, rhyw ddiwrnod?" oedd un o'r cwestiynau a ofynwyd iddo. " Cawn weld ", oedd yr ateb.
Ond beth am y gwaddol. Digon hawdd sgrechian am dim Cymru yn y Gemau Olympaidd. A ydy cynhyrchioli Cymru yn apelio at y mwyafrif o'n hieuenctid? Mae son am geisio denu y gemau 'r Gymanwlad i Gaerdydd mewn wyth mlynnedd. Beth am i'n hieuenctid osod targedi i'w hunain i geisio bod yn y tîm hwnnw. Beth amdani. Allan ym mhob tywydd yn ymarfer. Rhoi'r penwythnos i fynny i fynychu sesiynau hyfforddi. Torri lawr ar y peintiau, bwyta'n iach…Dyma mae pob un o'r rhai a fu'n cystadlu yn Llundain wedi ei wneud. Nifer o wledydd llawer tlotach na Chymru. Yntau ydy'n ni'n barod i refu o'n cadeiriau fod Cymru fach yn cael cam o hyd, a does dim byd i'w wneud yn ein hardal ni. Daeth yr awr i wir sefyll dros Gymru, a bod yn gynhyrchiolwyr yn ein lifrau ein hunain.Ac nid yn gystadleuwyr yn unig. Mae sawl ffordd o gyfranu i glwb – ar neu oddiar y maes, y cwrt , y pwll neu'r trac.
Gyda llaw, o son am feicio. Onid Dyffryn Peris yw'r unig ardal yng Nghwynedd heb 'lôn feics' erbyn hyn? Maes llafur i'n Cynghorau Cymuned godi gyda Chyngor Gwynedd?





**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

GWASANAETH GARDDIO
OWEN

GWAITH GARDDIO
TORRI GWAIR
TORRI CLODDIAU
TORRI A TRIN COED
GWAITH CLIRIO
PEINTIO



FFENSIO GERDDI A FFERMYDD
LLWYBRAU A PATIOS
Gwaith Gravel a Concretio
Ffacias UPVC a Landeri
BLOC PAFIO

07901648008



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

# Chwaraeon

## Crys Cymru i Bronwen



**Llongyfarchiadau i Bronwen Jenkinson o'r Waunfawr ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru dan 16 oed ym Mhencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain a Gogledd Iwerddon i'w chynnal yn Melmerby, ger Penrith yn Cumbria yn ystod mis Medi. Mae'n aelod llwyddiannus o Glwb Rhedwyr Eryri ac eisoes wedi cynrychioli Gogledd Cymru mewn amryw gystadleuthau rhedeg.**

Ddiwedd Awst mewn treilaon ar gyfer tim Cymru yn Llanberis, daeth Bronwen i'r brig mewn ras i fyny Cefn Drum, ac ennill ei fest ryngwladol gyntaf.

Yn yr un gystadleuaeth, bydd Alun Vaughan yn cynrychioli Cymru yn y ras i oedolion.

Mae dau arall o'r ardal wedi eu dewis i dim Cymru hefyd, y tro hwn i gystadlu ym marathon fynyddig y Jungfrau yn y Swisdir. Pob llwyddiant i Mathew Roberts o Lanberis a Sarah Ridgway o Nant Peris.



Daeth y gyfres nos Fawrth wedi ei noddi gan gwmni Joe Brown, Llanberis i ben mewn da bryd ar gyfer Ras yr Wyddfa, gyda dros ddau gant a hanner o oedolion wedi cystadlu ynddi. Roedd rasys y plant a'r ieuenctid yn hynod boblogaidd eleni hefyd, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y rhai fu'n cystadlu. Gwobrwywyd yr holl enillwyr yn yr Heights, Llanberis ar ddiwedd y gyfres. Dyma enillwyr adran y plant yn dangos eu medalau a'u tlysau. Mae'n argoeli'n dda am ddyfodol disglair i redeg mynydd yn yr ardal.

## TLWS YR ECO 2012



**Cae'r Ddôl, Llanberis ( -9) ac Eithin Duon Llanrug (-11)oedd yn estyn gwahoddiad eleni. Cafwyd dwy noson braf, croeso arbennig a lluniaeth blasus diolch i bwyllgorau'r ddau glwb. Cafwyd pêl-droed o safon, a daliodd ambell i chwaraewr sylw yr ambell 'sgowt' oedd yn bresennol. Unwaith eto gwelwyd ambell i gôl-geidwad addawol iawn. Does dim rhaid dweud, ond unwaith eto roedd ymddygiad y chwaraewyr yn arbennig, a diolch am hynny i'r dyfarnu arbennig.**

Chwe tim fentrodd dan 9 eleni, a chyda pawb yn wynebu eu gilydd Llanrug 'A', Llanrug 'B', Bethel a Llanberis frwydrodd trwodd i'r rownd gyn-derfynol. Gêm glos iawn rhwng ddau dim Llanrug gyntaf, a gôl hwyr Rhodri Dafydd yn gyrru'r 'A' trwodd. Cododd Llanberis eu gêm ar eu tomen eu hunain ac roedd rhaid cael amser ychwanegol cyn i gôl Morgan Evans yrru Bethel trwodd. Yr hen elyniaeth felly yn y rownd derfynol. Charlie Webb yn rhoi Bethel ar y blaen ond goliau Rhodri Dafydd a Tomos Roberts yn rhoi y medalau aur i Lanrug 'A'. Diolch i'n Golygydd Dafydd Whiteside Thomas am gyflwyno'r medalau.

Gwledd oedd yn ein haros y noson ganlynol. Eithin Duon ar ei orau a torf dda yn mwynhau'r heulwen. Saith tim y tro yma. Digon o frwdfrydedd, sgiliau a goliau i'w cofio. Llanberis a dau flaenwr cryf, dawnus yn gosod eu stamp yn fuan iawn. Llanberis 'A' heriodd Bethel 'B' gyntaf a Llanberis yn gyfforddus drwodd o 3-0. Yr un mor gyfforddus i Fethel 'A' o 3-0 yn erbyn Llanrug.Roedd gwledd o rownd derfynol yn ein haros. Cryfder Llanberis, digon o redeg a phasio gan Bethel. Sawl cyfle ond cryfder Llanberis aeth a hi o 2-0 diolch i ddwy gol Tomos Collins – chwaraewr y gystadleuaeth. Roedd un o'i goliau gyda pheniad gref yn gofiadwy. Un i'w wylio yn y dyfodol. Sefydlwyd record rwy'n credo gan Lanberis ar y noson. Y tim cyntaf i gipio'r tlws mewn unrhyw oed heb ildio gôl. Tipyn o gamp.

Drwy ennill y tlws dair blynnedd yn olynol roedd Deiniolen yn cadw yr 'hen' dlws felly Llanberis fydd ceidwaid cyntaf y gwpan arian 'newydd'. Bydd cryn ymgiprys am hon y flwyddyn nesaf.

Cyflwynwyd y medalau gan Simon Murley, chwaraewr tramor clwb criced Bangor o Seland Newydd. Roedd wedi hyfforddi rhai o'r bechgyn yn y sesiynau criced yn yr ysgolion cynradd. Diolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw ffordd, yn enwedig y cefnogwyr, i gynhyrchu gwledd o gystadleuaeth unwaith eto. Mae clwb Llanrug

Eisioes wedi gofyn am gael croesawu'r oedran -11 yn 2013. Unrhyw glwb am fod y cyntaf i'r felin ar gyfer dan 9?

### APÊL

Cofiwch glybiau pob camp yn y fro i adael i mi wybod am unrhyw ddigwyddiad sy'n mynnu sylw/ canmoliaeth/ cyhoeddusrwydd.

Fy nod yw nodi'r amrywiaeth o gampau a gysylltir â'r fro. Heb ddweud, heb wybod, heb gofnodi.